Rhif: **WG23299**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adroddiad ar ymgynghoriad gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol 2014

Dyddiad cyhoeddi: **Hydref 2014**

# Adroddiad ar ymgynghoriad gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol 2014

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Anelir y ddogfen hon at bawb sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth addysg ar gyfer rhai ag anghenion addysgol arbennig. |
| **Trosolwg** | Dyma adroddiad ar weithdai a gynhaliwyd i geisio barn plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>Yr Is-Adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn 029 2082 6098<br>e-bost: Senreforms@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |

ISBN digidol 978 1 4734 2299 5
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23299

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | 5 |
| **Rhagarweiniad** | 9 |
| **Methodoleg** | 11 |
| **Y cwestiynau a ofynnwyd** | 14 |
| **Trosolwg o'r ymgynghoriad** | 16 |
| **Canlyniadau'r plant a'r bobl ifanc** | 18 |
| Nod 1 | 18 |
| Nod 2 | 25 |
| Nod 3 | 36 |
| **Canlyniadau rhieni a gofalwyr** | 42 |
| Nod 1 | 44 |
| Nod 2 | 49 |
| Nod 3 | 54 |
| **Atodiad 1: Cwestiynau gan rieni a gofalwyr** | 58 |
| **Atodiad 2 : Crynodeb o'r holl sylwadau gan blant a phobl Ifanc** | 61 |
| **Atodiad 3 : Crynodeb o'r holl sylwadau gan rieni a gofalwyr** | 71 |

Cynhaliwyd yr

ymgynghoriad a'r adroddiad hwn

ar ran Llywodraeth Cymru

gan


Awdur: Jo Stephens, Arbenigwr Ymgynghori

Cefnogwyd gan: Amy Sanders, Uwch Gydlynydd Prosiectau

Darparwyd yr ymgynghoriadau gan:
Jo Stephens, Phill Burton, John Daphne Thomas, Michelle Blease

**Dynamix: 01792 466231** info@dynamix.coop, www.dynamix.coop
Uned 4d Heol y Cwm, Hafod, Abertawe, SA1 2AY

# Diolch o galon i bawb a gymrodd ran!

DIOLCH  i blant a phobl ifanc o:

- Coleg Castell-nedd Port Talbot, Campws y Drenewydd, Powys
- Ysgol Neuadd Brynllywarch, Powys
- Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint
- Ysgol Bryn Teg, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt, Powys
- Ysgol Bryngwyn, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Penglais, Ceredigion
- Ysgol Gyfun Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Gynradd Caerau, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Hafod Lon, Gwynedd
- Ysgol Pendalar, Gwynedd
- Ysgol Pen-y-cwm, Blaenau Gwent
- Ysgol Dylan Thomas, Abertawe
- Canolfan Dereck Roberts – Abertawe

DIOLCH i rieni a gofalwyr o:

- Grŵp Cymorth Gofalwyr Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint
- Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt, Powys
- Ysgol Dylan Thomas / Canolfan Dereck Roberts, Abertawe
- Ysgol Arbennig Pen-y-cwm, Blaenau Gwent
- Ysgol Penglais, Ceredigion

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cyd-destun

Bwriad yr ymgynghoriad hwn oedd casglu barn plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol a'u rhieni a gofalwyr am Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, sef 'Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol'.
Mae tri phrif nod i'r Papur Gwyn:

1. Un gyfraith ynglŷn â sut i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed y mae angen help arnyn nhw â dysgu.
2. Un system o gydweithio fel bod pob gwasanaeth yn gallu camu i mewn yn gynnar â'r cymorth iawn i blant a phobl ifanc y mae angen help arnyn nhw â dysgu.
3. Cyngor, cymorth a gwybodaeth eglur sy'n deg i bawb os bydd pethau'n mynd o chwith neu os nad ydyn nhw'n hoffi penderfyniad.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried cyfres o gwestiynau yn ymwneud â'r tri nod hyn. Codwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad o fersiwn hawdd ei darllen Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, sef 'Y Cynlluniau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol - Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc'.

## Cynnal yr Ymgynghoriad

Cytunodd Llywodraeth Cymru gontract gyda Dynamix i gynnal yr ymgynghoriad hwn gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni a gofalwyr. Defnyddiodd Dynamix ddulliau cynhwysol a chyfranogol i sicrhau dealltwriaeth dda ac i annog plant a phobl ifanc, a'u rhieni a'u gofalwyr, i ymateb i'r cwestiynau hyn.

## Y garfan ymgynghori

Gweithiodd Dynamix gyda:

- 14 grŵp o blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd cyfanswm o 174 o blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad.
- 6 grŵp o rieni a gofalwyr. Roedd cyfanswm o 55 o rieni a gofalwyr wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad.

Roedd y plant a'r bobl ifanc rhwng 8 a 20+ oed, a daethant o amrywiaeth o leoliadau addysg - cynradd, uwchradd ac addysg bellach - gan gynnwys ysgolion y brif ffrwd ac ysgolion arbennig. Roedd pob un ohonynt wedi'i gofrestru gydag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac yn destun i gynllun megis Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, neu wedi cael Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Ac roedd ganddynt amrediad eang o anghenion o ran cymorth dysgu.

Daeth y grwpiau o bob cwr o Gymru. Rhoddwyd dewis i bob grŵp o ran iaith y

gweithdai, sef Cymraeg neu Saesneg. Gwahoddwyd grwpiau Cymraeg eu hiaith yn benodol i gymryd rhan. Cydiodd dwy ysgol arbennig Gymraeg yn y cyfle i gynnal y gweithdai yn Gymraeg.

## Crynodeb o'r atebion ynghylch Nod 1 – Un gyfraith ynglŷn â sut i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed y mae angen help arnyn nhw â dysgu.

**Newid y termau:** Roedd y cwestiwn a ddylid defnyddio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn lle Anghenion Addysgol Arbennig yn ddadleuol iawn ymhlith plant a phobl ifanc. Dim ond hanner ohonyn nhw oedd o'r farn bod hyn yn syniad da, ac roedd eraill o'r farn nad oedd angen newid, oherwydd na fyddai'n gwneud gwahaniaeth o ran labelu negyddol, neu oherwydd bod unrhyw fath o labelu'n beth gwael. Roedd mwyafrif y rhieni a gofalwyr yn cefnogi'r newid, er iddynt fynegi rhywfaint o bryder ynghylch labelu. Hefyd, roedd dryswch ynghylch cwmpas y diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Cynlluniau Datblygu Unigol:** Roedd plant a phobl ifanc yn cytuno y dylai fod Cynllun Datblygu Unigol lle bo angen, ond roeddent yn pryderu y dylai'r rhain fod yn gyfrinachol. Roedd rhieni a gofalwyr yn cytuno â'r cynnig hwn hefyd, ond mynegwyd pryderon ynghylch yr adnoddau ariannol sydd ar gael i roi'r newidiadau ar waith, ac elfen o amheuaeth a fyddai'r cymorth yn ddigonol o ganlyniad.

**Disodli'r hen drefn:** Roedd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc o'r farn y dylai'r Cynlluniau Datblygu Unigol ddisodli'r drefn bresennol, ond roedd y cwestiwn yn drysu rhai ohonyn nhw oherwydd diffyg gwybodaeth yn gyffredinol am y cynlluniau sydd ar waith ar eu cyfer ar hyn o bryd. Roedd rhieni a gofalwyr yn cytuno ar y cyfan, ond mynegwyd pryder am y dryswch a allai godi yn sgil newid y drefn. Mae rhywfaint o bryder ynghylch hyn, ond i lawer, cyhyd â bod gan Gynllun Datblygu Unigol yr un grym cyfreithiol â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, a chyhyd â na fydd hyn yn golygu bod yr adnoddau'n cael eu gwasgaru'n ormodol, roeddent yn fodlon i'r newid ddigwydd.

**Ysgolion yn diwallu anghenion**: Roedd plant a phobl ifanc o'r farn y dylai ysgolion wneud eu gorau glas i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth angenrheidiol, er y cafwyd rhywfaint o goegni a yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd.

**Cyfarwyddyd:** Roedd plant a phobl ifanc a rhieni a gofalwyr o'r farn y dylid llunio cyfarwyddyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol ynghylch y Cynlluniau Datblygu Unigol a chymorth i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol, ond roedd rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn credu na ddylai'r cyfarwyddyd fod yn rhy ddogmatig.

**Pobl ifanc dros 16 oed:** Roedd dwy ran o dair o'r plant a'r bobl ifanc yn cytuno y dylid defnyddio'r cynlluniau ar gyfer plant dros 16 oed, yn arbennig y rhai oedd yn agos at 16 oed. Roedd teimlad cryf y dylai'r cymorth newid i addasu i'w hoedran, y dylai fod yn ddewis y bobl ifanc, ac y gellid cael llai o fewnbwn o'u rhieni wrth iddynt fynd yn hŷn. Roedd rhieni a gofalwyr yn cytuno, ond roeddent hefyd o'r farn y dylai fod rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael i bobl ifanc dros 16 oed, ac yn pryderu am bwy fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Ysgolion yn diwallu anghenion:** Roedd plant a phobl ifanc yn cytuno na ddylai'r rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ond mynd i ysgolion sy'n gallu diwallu eu

hanghenion. Roedd rhieni a gofalwyr yn cytuno â hynny, ond yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am sut y gwneir y penderfyniad.

## Crynodeb o'r atebion ynghylch Nod 2 – Un system o gydweithio fel bod pob gwasanaeth yn gallu camu i mewn yn gynnar â'r cymorth iawn i blant a phobl ifanc y mae angen help arnyn nhw â dysgu.

**Barn plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd:** Roedd plant a phobl ifanc a rhieni a gofalwyr yn cytuno y dylai Awdurdodau Lleol wrando ar eu barn wrth benderfynu ar gymorth. Fodd bynnag, roedd plant a phobl ifanc yn pryderu am y broses ar gyfer gwneud hyn, ac roedd llawer o'r rhai oedd â phrofiad o gyfarfodydd yn dweud bod y cyfarfodydd yn eu danto neu'n ddiflas, neu eu bod yn teimlo na chawsant eu clywed.

**Adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol:** Cytunodd plant a phobl ifanc y dylid adolygu'r Cynlluniau Datblygu Unigol o leiaf unwaith bob blwyddyn, ac roedd llawer yn cynnig y dylai ddigwydd yn fwy aml na hynny a hefyd y dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd i'w addasu ar adegau allweddol os oes angen. Roedd rhieni a gofalwyr yn cytuno, ac roedd llawer yn teimlo y dylai ddigwydd yn fwy aml. Ond roeddent hefyd yn mynegi pryder am ddefnyddio adnoddau ariannol a phroffesiynol trwy gynnal adolygiadau rhy aml.

**Adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn plant ifanc:** Roedd plant a phobl ifanc, a rhieni a gofalwyr hefyd, yn cytuno y dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant ifanc iawn wybod beth i'w wneud os ydynt yn sylweddoli bod plentyn yn cael anhawster dysgu.

**Gweithwyr proffesiynol yn cydweithio:** Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn cytuno y dylai gweithwyr proffesiynol gydweithio i gefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol, er y mynegwyd pryderon am sut mae cyflawni hynny, a bod cyflawni hynny wedi bod yn anodd yn eu profiad nhw. Roedd rhieni a gofalwyr yn cytuno gan fynegi'r un pryderon, er yr oedd rhai ohonyn nhw'n awgrymu y byddai system gyfrifiadurol ganolog ar gyfer cwblhau a chyrchu cynlluniau o bosibl yn hwyluso pethau.

**Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol:** Roedd plant a phobl ifanc yn cytuno y dylai fod gan bob ysgol Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond roeddent hefyd o'r farn y dylai bob aelod arall o staff yr ysgol gynorthwyo, a deall Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn ôl llawer ohonynt, nid yn unig y dylai'r Cydlynwyr gael digon o hyfforddiant eu hunain, ond y dylai hefyd fod yn gyfrifoldeb arnyn nhw i sicrhau'r ethos a dealltwriaeth gywir ar draws y lleoliad addysgol cyfan. Roedd rhieni'n cytuno â'r pwyntiau hyn, gan nodi hefyd y dylai fod lefel gyson uchel o gefnogaeth gan y Cydlynwyr.

**Yr un cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal:** Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r cynnig y dylai'r un drefn fod yn weithredol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal oddi wrth yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw'r cymorth angenrheidiol. Roedd nifer o'r plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn gyndyn i wneud sylwadau ar faterion sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal, gan nad oedd ganddyn nhw brofiad personol uniongyrchol.

## Crynodeb o'r atebion ynghylch Nod 3 – Cyngor, cymorth a gwybodaeth eglur

sy’n deg i bawb os bydd pethau’n mynd o chwith neu os nad ydyn nhw’n hoffi penderfyniad.

**Apelio yn erbyn penderfyniad heb fod angen tribiwnlys:** Os na fydd pobl yn fodlon ar y penderfyniadau a wnaed ynghylch cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol, roedd plant a phobl ifanc a rhieni a gofalwyr yn cytuno y dylai fod gwybodaeth a chyngor ar gael am yr hyn y gallant ei wneud i apelio, ac y dylid datrys problemau'n gyflym a heb fod angen tribiwnlys, lle bo modd. Roedd plant a phobl ifanc yn mynegi pryder am ruthro i wneud penderfyniad, ac roedd rhieni a gofalwyr yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau ei bod yn hawdd mynd at dribiwnlys lle bo angen.

**Tribiwnlysoedd**: Cafwyd cefnogaeth gref gan blant a phobl ifanc, a chan rieni a gofalwyr, i'r awgrym y dylai fod modd mynd at dribiwnlys lle bo angen, ac i'r awgrym y dylai fod modd i blant a phobl ifanc gael cymorth gan rywun maent yn ymddiried ynddo os ydynt yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad. Roedd pawb yn cefnogi'r cynnig y dylai fod rhywun â'r cyfrifoldeb i sicrhau tegwch y broses.

# RHAGARWEINIAD

## Cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar Gynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fersiwn hawdd ei darllen o'r Papur Gwyn, sef 'Y Cynlluniau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol - Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc'.

Bwriad y gweithdai ymgynghori hyn oedd casglu barn plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol, a'u rhieni a gofalwyr, am y cynigion yn y Papur Gwyn hwn.

## Llywodraeth Cymru

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn ar ran Llywodraeth Cymru.

Fe'i harweiniwyd gan Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Adran Cefnogi Dysgwyr, o fewn y Grŵp Ysgolion a Phobl Ifanc yn Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Y prif gyswllt oedd Martha Howells.

## Dynamix

Cytunodd Llywodraeth Cymru gontract gyda Dynamix i drefnu'r gweithdai ymgynghori, ac i gasglu barn plant a phobl ifanc, yn ogystal â barn rhieni a gofalwyr.

Mae Dynamix yn fenter gymdeithasol yng Nghymru sy'n trefnu ymgynghoriadau yn ogystal â darparu gwasanaethau addysg eraill, ac mae wedi ennill enw da yn y maes hwn yn ystod y 25 blynedd ers ei sefydlu. Mae Dynamix yn arbenigo mewn rhoi llais i bobl trwy ddefnyddio gweithgareddau cyfranogol er mwyn ymgysylltu mewn modd cynhwysol. Prif arbenigwyr ymgynghori Dynamix oedd Jo Stephens, Phill Burton a John Daphne Thomas. Ysgrifennwyd yr adroddiad gan Jo Stephens.

Mae Dynamix yn defnyddio gweithgareddau ymgynghorol a chyfranogol i sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gallu dweud eu dweud, ac i gynnal diddordeb pawb yn y broses. Defnyddiwyd amrediad o dechnegau er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu mynegi eu barn yn y ffordd orau iddyn nhw, boed yn gorfforol, yn weledol, ar lafar neu mewn grwpiau bach. Ceisiwyd osgoi gweithgareddau oedd yn dibynnu ar lythrennedd gymaint â phosibl; ond pan ddefnyddiwyd y fath dechnegau, y plant a'r bobl ifanc yn y grŵp oedd wedi'u dewis. Defnyddiwyd gemau i sicrhau bod yr awyrgylch yn gadarnhaol ac yn galonnog, a hefyd i greu cydbwysedd rhwng y gweithgareddau cryf a meddyliol a'r rhai ysgafnach ac ymlaciol. Y canlyniad yw bod cyfranogwyr yn teimlo'n ddigon cyffyrddus a hyderus i gyfranogi'n llawn yn y profiad trwy ymgynghoriad wedi'i hwyluso, i deimlo eu bod wedi'u cynnwys, ac i wybod y cymerir eu syniadau a'u barn o ddifrif.

Mae'n bwysig nodi hefyd na chesglir yr wybodaeth mewn modd safonol, felly nid yw'n briodol gwneud dadansoddiadau ystadegol ohoni. Yn hytrach, mae'n darparu naratif coeth ac ansoddol, mewnwelediadau defnyddiol, a gwybodaeth werthfawr, yn ogystal â

phrofiad cadarnhaol i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae Dynamix yn tynnu ar amrediad o weithgareddau sydd wedi'u profi dros lawer o flynyddoedd. Yn ogystal â thynnu ar fethodoleg a brofwyd, mae Dynamix yn falch o fod yn greadigol ac yn barod i addasu er mwyn sicrhau defnyddio dulliau newydd sy'n cyfateb i anghenion darn penodol o waith.

Tanategir methodolegau Dynamix gan ein gwerthoedd, sef ymgysylltu trwy gyfranogiad a hwyl, parch, cynwysoldeb, cydweithio a grymuso, yn ogystal â gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol. Mae Dynamix yn gefnogydd brwd y 12 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a'r 7 Safon Genedlaethol ar gyfer Cyfranogiad yng Nghymru. I egluro ymrwymiad Dynamix i'r rhain:

- **Gwybodaeth***:* Rhaid i'r wybodaeth a'r gweithgareddau fod yn addas ar gyfer y cyfranogwyr, ac yn hawdd i bawb eu deall. Rydym yn esbonio'n glir ymlaen llaw'r hyn yr ydym yn ei wneud, a phaham, er mwyn sicrhau bod gan bawb ddigon o wybodaeth i ymwneud mewn modd addas. Rydym yn glir am y gwahaniaeth a wneir gan y cyfranogwyr, i bwy y byddwn yn rhoi'r wybodaeth a roddir i ni ganddyn nhw, a sut y bydd yn effeithio ar newid.

- **Eu dewis nhw***:* Dylai cyfranogwyr allu penderfynu a ydynt am gymryd rhan. Ar ôl i ni ddarparu'r wybodaeth ar y dechrau, rydym yn ymgynghori â nhw ynghylch sut maent eisiau cymryd rhan ac ym mha ffyrdd. Rydym yn defnyddio gweithgareddau sy'n caniatáu i'r cyfranogwyr chwarae cymaint o ran ag y maent yn dymuno.

- **Dim camwahaniaethu***:* Rydym yn sicrhau bod croeso i bawb ac rydym yn defnyddio gweithgareddau sy'n galluogi'r cyfranogwyr i gymryd rhan, beth bynnag eu hanghenion a'u diddordebau. Rydym yn argymell defnyddio canran gynrychioladol dda o'r bobl yr ydych yn ymgynghori â nhw.

- **Maent yn elwa arno***:* Rydym yn defnyddio gweithgareddau a gemau y mae'r cyfranogwyr yn eu mwynhau. Rydym yn rhoi gwybodaeth i'r cyfranogwyr ac yn gwerthfawrogi eu barn, sy'n eu grymuso ac sy'n adeiladu eu hyder fel eu bod yn elwa ar gymryd rhan.

- **Parch***:* Rydym yn rhoi cyfle i bawb ddweud eu dweud gan ddefnyddio amrediad o ddulliau i uchafu eu gallu i gymryd rhan. Rydym yn esbonio'n glir bod eu barn, eu syniadau, eu safbwyntiau a'u profiadau'n bwysig, ac rydym yn eu parchu, eu cymryd o ddifri, ac yn eu trin yn deg.

- **Adborth***:* Rydym yn glir am y gwahaniaeth y bydd eu cyfraniad yn ei wneud a sut y caiff eu syniadau eu defnyddio. Rydym yn argymell sicrhau bod gan bawb fynediad at yr adroddiad.

- **Gwella'n Ffordd o Weithio***:* Rydym o ddifri am yr egwyddor bod y syniadau a gawn gan y plant a'r bobl ifanc yn cael eu defnyddio i wneud gwahaniaeth go iawn i'r penderfyniadau a wneir ar ôl yr ymgynghori.

# METHODOLEG

Codwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn ystod gweithdai'r ymgynghoriad o fersiwn hawdd ei darllen Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, sef 'Y Cynlluniau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol' - y ddogfen ymgynghori ar gyfer pobl ifanc - a'r cynnig a geir ynddo.

Rhennir y Papur Gwyn yn dair rhan ar sail y tri phrif nod, ac roedd nifer o gwestiynau'n ymwneud â phob un o'r tri nod hyn:

1. Un gyfraith ynglŷn â sut i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed y mae angen help arnyn nhw â dysgu.
2. Un system o gydweithio fel bod pob gwasanaeth yn gallu camu i mewn yn gynnar â’r cymorth iawn i blant a phobl ifanc y mae angen help arnyn nhw â dysgu.
3. Cyngor, cymorth a gwybodaeth eglur sy’n deg i bawb os bydd pethau’n mynd o chwith neu os nad ydyn nhw’n hoffi penderfyniad.

Dyluniwyd rhaglen gyfranogol ar sail y rhain. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau i ddatblygu meddwl cefndirol a thrafodaeth am bob un o'r cwestiynau er mwyn i'r cyfranogwyr deimlo'n fwy gwybodus cyn ymateb. Roedd y gweithgareddau cefndirol eu hunain yn darparu rhai mewnwelediadau pwysig am fod yn berson ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a'r effaith y caiff hynny ar eu bywydau beunyddiol.

Cadwyd y cyfranogwyr wrth wraidd y broses o gynllunio a chyflawni'r rhaglen. Roeddem yn cadw'r iaith a'r cysyniadau a ddefnyddiwyd gennym yn syml, ac yn defnyddio dulliau nad oedd yn mynnu bod y plant a'r bobl ifanc yn darllen neu'n ysgrifennu, er yr oedd modd iddyn nhw wneud hynny os oeddent yn dymuno.

Roedd y gweithgareddau a ddefnyddiwyd gennym yn annog pawb i fynegi barn os oeddent yn dymuno, heb fod angen siarad. Fel gyda phob grŵp, roedd rhai o'r cyfranogwyr yn fwy parod i siarad ac i rannu eu syniadau nag eraill. Yn yr un modd, roeddem yn addasu'n dulliau fel nad oeddent yn dibynnu ar symud o gwmpas os oedd hynny'n broblem i'r rhai oedd yn cymryd rhan.

Roedd oedran a gallu'r cyfranogwyr yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhaid ystyried y ffaith hon, ac amryw fater ymarferol hefyd. Er enghraifft, roedd yn rhaid i rai o'r bobl ifanc fynd i fynychu gwahanol wersi; roedd yn rhaid ymateb i anghenion gofal; roedd yn rhaid gweithio o gwmpas amseroedd seibiant ac yn y blaen. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, roedd pob sesiwn yn weddol unigryw o ran faint o gwestiynau, a pha gwestiynau, a godwyd, dyfnder ein trafodaeth o'r cwestiynau, ac mewn rhai agweddau, sut yr atebwyd y cwestiynau hynny. Roeddem yn sicrhau gofyn y cwestiynau allweddol o'r cynllun mewn cymaint o sesiynau â phosibl.

Os oedd unigolion yn cael anhawster â'r sesiynau, roeddem yn addasu'n hymagwedd tuag at y sesiwn trwy ddefnyddio gweithgareddau gwahanol i sicrhau ymgysylltu, gan ddiwallu eu hanghenion hefyd.

Yn unol â'r safon ar gyfer cyfranogi, sef bod yn rhaid i bobl gael dewis cymryd rhan ai peidio, roedd pob cyfranogwr yn cael dewis nid yn unig a oedd yn cymryd rhan ond hefyd

i ba raddau.  Felly, os oedd cyfranogwyr am aros, ond bod ar ymylon y grŵp, roedd hynny'n iawn, ac roeddent yn gallu cyfranogi pan oeddent yn dymuno.

Roeddem yn glir bod y sesiynau i fod yn bleserus, a grymuso'r cyfranogwyr, a bod y farn a fynegir gan blant a phobl ifanc yn hynod o werthfawr.

Yn rhan o'n hymrwymiad i gyfranogiad pobl ifanc, roeddem yn annog pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i gymryd rhan ym mhob rhan o'r broses.  Roedd hynny'n cynnwys cynnal y gweithdai.  Mae Dynamix wedi hyfforddi tîm o bobl ifanc i gynnal ymgynghoriadau fel hyn, ac mae gan nifer o'r bobl ifanc hyn anghenion dysgu ychwanegol.  Cyfyngwyd ar allu'r gwirfoddolwyr ifainc hyn i ddod i'r gweithdai oherwydd yr oedd yr amserlen yn dynn, ac roedd gan y gwirfoddolwyr ymrwymiadau eraill yn ystod yr wythnosau perthnasol.  Fodd bynnag, roedd modd i berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol gyd-hwyluso un o'r gweithdai.  Dylid nodi y byddai wedi bod modd, o bosibl, trefnu bod pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cyd-hwyluso'r cyfan o'r gweithdai, gyda mwy o amser.

Roedd y gweithdai gyda rhieni a gofalwyr ychydig yn wahanol, oherwydd addaswyd ein hymagwedd a'n dulliau i ymateb i'w hanghenion a disgwyliadau.  Roedd tueddiad i'r gweithdai hyn ymwneud yn llawer mwy â thrafodaeth wedi'i hwyluso yn hytrach na chyfres o weithgareddau.  Roedd rhieni a gofalwyr yn glir am sut yr oeddent am gyfleu eu barn, ac ymatebodd Dynamix i'r anghenion hyn.

**Deall y Derminoleg Gyfredol** – ceir diffiniadau manwl yng Nghod Ymarfer Cymru ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig

**Anghenion Addysgol Arbennig:** Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig os oes ganddo anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysg arbennig.

**Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy:** Mae *Gweithredu gan yr Ysgol* yn cyfeirio at y cymorth ychwanegol a'r ymyriadau a ddarperir pan fydd athro dosbarth neu'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yn nodi bod Anghenion Addysgol Arbennig gan blentyn.  Defnyddir *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* pan fydd yr ysgol yn ceisio cyngor gan wasanaethau cymorth yr Awdurdod Addysg Lleol, gan yr Awdurdod Iechyd Lleol, neu gan Wasanaethau Cymdeithasol.

**Datganiadau:** Os bydd angen cymorth ar blentyn ag anghenion addysgol arbennig, bydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn llunio datganiad yn nodi'r ddarpariaeth addysgol arbennig arfaethedig sydd ei hangen ar y plentyn.

**Dolenni Defnyddiol**

Dogfennau Llywodraeth Cymru:

(1) Papur Gwyn ar y cynigion deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol

(2) Fersiwn hawdd ei darllen o'r Papur Gwyn, sef 'Cynlluniau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol'

http://wales.gov.uk/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?lang=cy

Cod Ymarfer cyfredol Cymru ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig: http://learning.wales.gov.uk/resources/special-education-needs-code-of-practice/?lang=cy

# Y CWESTIYNAU A OFYNNWYD

## Nod 1 – Un gyfraith ynglŷn â sut i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed y mae angen help arnyn nhw â dysgu.

- A ddylid defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY) yn lle 'anghenion addysgol arbennig' (AAA)?
- A ddylai pob plentyn neu berson ifanc sydd ag angen arno gael cynllun datblygu unigol sy'n nodi pa gymorth sydd ei angen a phwy ddylai ei ddarparu?
- A ddylai'r cynllun hwn gymryd lle cynlluniau eraill megis Gweithredu gan yr Ysgol a Datganiadau?
- A ddylai fod canllawiau i helpu'r gweithwyr proffesiynol sy'n eich cefnogi i wybod beth sydd angen ei roi yn y cynllun, ac i sicrhau bod hynny'n digwydd?
- A ddylai ysgolion wneud eu gorau glas i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt?
- A ddylai plant dros 16 oed mewn addysg (er enghraifft mewn Coleg Addysg Bellach) gael yr un fath o gynllun a chymorth?
- A ddylid sicrhau nad yw plant ond yn mynd i ysgolion sy'n gallu sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt?
- Ydych chi am ddweud unrhyw beth arall am hyn?

## Nod 2 – Un system o gydweithio fel bod pob gwasanaeth yn gallu camu i mewn yn gynnar â'r cymorth iawn i blant a phobl ifanc y mae angen help arnyn nhw â dysgu.

- A ddylai awdurdodau lleol gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a gwrando ar eu barn nhw wrth ystyried pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw?
- A ddylai cynlluniau datblygu unigol gael eu hadolygu bob blwyddyn, a'u newid os oes angen?
- A ddylai pobl sy'n gweithio gyda phlant ifainc iawn wybod beth i'w wneud os byddant yn sylweddoli bod plentyn yn cael anhawster dysgu?
- A ddylai'r bobl sydd yno i helpu, megis meddygon, athrawon a gweithwyr cymdeithasol, gydweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw?
- A ddylai bob ysgol fod â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol?
- A ddylai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal oddi wrth yr awdurdod lleol gael yr un fath o gynllun yn lle'r cynlluniau addysg personol sydd ganddynt ar hyn o bryd?
- Ydych chi am ddweud unrhyw beth arall am hyn?

## Nod 3 – Cyngor, cymorth a gwybodaeth eglur sy'n deg i bawb os bydd pethau'n mynd o chwith neu os nad ydyn nhw'n hoffi penderfyniad.

- A ddylai plant, pobl ifanc a'u rhieni allu cael yr holl wybodaeth a chyngor sydd eu hangen arnyn nhw?
- A ddylid datrys problemau ynghylch cymorth dysgu cyn gynted â phosibl, fel nad ydynt yn mynd yn waeth neu'n mynd i dribiwnlys?
- A ddylai fod modd i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed mynd i dribiwnlys i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw?
- A ddylai rhywun penodol fod â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod y broses yn deg?
- A ddylai fod modd i blant a phobl ifanc allu cael help oddi wrth rywun y maen

nhw'n ymddiried ynddo os ydyn nhw eisiau cwyno am y cymorth maent yn ei dderbyn?

- Ydych chi am ddweud unrhyw beth arall am hyn?

# TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD

**Pryd:** Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau trwy gydol misoedd Mehefin a Gorffennaf 2014, yn ystod ychydig wythnosau olaf tymor yr haf.

**Y plant a'r bobl ifanc gafodd eu cynnwys:** Targedwyd amrywiaeth o ysgolion y brif ffrwd, unedau dysgu arbenigol, ac ysgolion arbennig. Dewiswyd yr ysgolion prif ffrwd oherwydd bod ganddyn nhw ganran uwch na'r cyfartaledd o blant a phobl ifanc gydag Anghenion Addysgol Arbennig neu oherwydd bod ESTYN yn cyfeirio atyn nhw fel enghreifftiau o arfer da. Ymgynghorwyd â chyfanswm o 174 o blant a phobl ifanc o bedwar grŵp ar ddeg.

**Paratoi:** Anfonwyd copïau o'r Papur Gwyn ar gyfer staff, a gwahoddiadau i blant a phobl ifanc, at y canolfannau oedd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol y plant a'r bobl ifanc:** Roedd gan y plant a'r bobl ifanc ystod eang o anghenion cymorth dysgu. Roedd y rhain yn cynnwys anableddau dysgu dwys a mân, dyslecsia, anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anableddau corfforol, ac anableddau megis y rhai sy'n cyfyngu ar symud, gweld, neu glywed.

**Ymgysylltu â chymorth Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol:** Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd ar amrywiaeth o'r cynlluniau cyfredol, gan gynnwys Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, a Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig.

**Cam Addysgol:** Roedd y plant a'r bobl ifanc yn cynnwys plant ysgolion cynradd, plant ysgolion uwchradd (hyd at 19 oed) a phobl ifanc mewn Colegau Addysg Bellach. Roedd nifer ohonyn nhw ar adeg pontio o ran eu cynlluniau; er enghraifft roedd angen mwy, neu lai, o gymorth arnynt, neu roeddent ar fin symud ymlaen i lefel nesaf eu haddysg (megis symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd).

**Oedran**: Roedd oedran y rhai a gymrodd ran yn amrywio o 8 oed i 20 oed ac yn hŷn.

**Iaith**: Cynigiwyd yr opsiwn i bob grŵp gynnal y gweithdy yn Gymraeg neu Saesneg. Cysylltwyd â nifer o ysgolion dwyieithog a Chymraeg ledled Cymru, gan eu hannog i gymryd rhan. Dewisodd dau grŵp gynnal y gweithdai yn Gymraeg, a chynhaliwyd y gweddill yn Saesneg. Roedd y rhai a ddewisodd ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgolion arbennig cyfrwng Cymraeg, ill dau.

**Cwmpas daearyddol**: O ran daearyddiaeth, gweithiom ni â grwpiau mewn naw ardal awdurdod lleol, yn y gogledd, y de, a'r canolbarth, gan gynnwys: Powys; Sir y Fflint; Pen-y-bont ar Ogwr; Sir Gaerfyrddin; Ceredigion; Gwynedd; Rhondda Cynon Taf; Blaenau Gwent ac Abertawe. Gwnaethom ni sicrhau cynnwys awdurdodau lleol sydd, ar hyn o bryd, yn defnyddio dulliau gwahanol o gefnogi Anghenion Addysgol Arbennig.

**Addasu i anghenion wrth ymgysylltu:** Roedd y gwahaniaethau o ran oedran, gallu ac

anghenion penodol y cyfranogwyr yn golygu bod nifer yr atebion i'r cwestiynau'n amrywio. Yn wyneb hynny, trafodwyd rhai cwestiynau gan bob grŵp, tra nad oedd ond rhai o'r grwpiau'n trafod y cwestiynau eraill.

**Rhieni a Gofalwyr:** Ar ben hynny, cyfarfuom â chwe grŵp o rieni a gofalwyr, oedd yn cynnwys cyfanswm o 55 unigolyn. Ar y cyfan, roedd y sesiynau hyn yn fyrrach na'r rhai gyda'r plant a'r bobl ifanc. Defnyddiwyd rhywfaint o weithgareddau cyfranogol, ond yn aml roedd yn well gan y cyfranogwyr cael trafodaeth wedi'i hwyluso, felly cofnodwyd eu hymateb o'r trafodaethau hyn.

Roedd nifer o'r rhieni a gofalwyr wedi darllen y Papur Gwyn yn barod, ac roedd rhai wedi llenwi'r ffurflen ymgynghori ar-lein.

**Elwa o gymryd rhan:** Darparwyd lluniaeth i bawb a gymrodd ran, fel ffordd o ddiolch iddyn nhw. Hefyd, sicrhawyd bod pawb yn fwy gwybodus o ganlyniad i gymryd rhan, ac roeddem yn ceisio codi eu hyder i fynegi eu barn trwy gymryd rhan. Anfonir tystysgrif a llythyr o ddiolch at bob plentyn a pherson ifanc a gymrodd ran yn y sesiynau ymgynghori hyn.

# CANLYNIADAU'R PLANT A'R BOBL IFANC

## TROSOLWG O GANLYNIADAU'R PLANT A'R BOBL IFANC

Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc a gymrodd ran yn cytuno, mewn egwyddor, â'r rhan fwyaf o'r cynigion, er mai'r cwestiwn am y newid o Anghenion Addysgol Arbennig i Anghenion Dysgu Ychwanegol oedd y cwestiwn mwyaf dadleuol iddyn nhw. Roedd y nifer oedd yn cytuno bron yr un â'r nifer oedd yn anghytuno.


Un sylw a wnaed gan hwyluswyr Dynamix oedd bod gwahaniaeth rhwng ymateb plant ysgolion y brif ffrwd ac ymateb plant mewn addysg arbennig. Roedd y rhai mewn ysgolion arbennig yn dueddol o fod yn hapusach ac yn fwy sicr o'r sefyllfa sydd ohoni, ac yn llai tebyg o weld gwarthnod ynghlwm wrth y term Anghenion Addysgol Arbennig, er enghraifft.

O'r canlyniadau meintiol yn unig, gall ymddangos fod rhai o'r cynigion yn denu cytundeb llwyr y cyfranogwyr. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon hefyd, a bydd angen ystyried y rhain yn ofalus. Mae ymateb y plant a'r bobl ifanc yn feddylgar, deallus, ac yn aml yn greadigol. Roedd yn profi pa mor hanfodol yw casglu eu barn a'i defnyddio i ddod i gasgliad cyffredinol am yr ymgynghori ar y cynigion hyn.

## CANLYNIADAU AR GYFER POB CWESTIWN:

### NOD 1 — **Un gyfraith ynglŷn â sut i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed y mae angen help arnyn nhw â dysgu.**

### A ddylid defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY) yn lle 'anghenion addysgol arbennig' (AAA)?




**Y cynnig hwn yw'r un a greodd yr anghytundeb mwyaf ymhlith y cyfranogwyr.**

**Roedd ymron i hanner y plant a'r bobl ifanc o'r farn na ddylid defnyddio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn lle Anghenion Addysgol Arbennig.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Nid oedd nifer sylweddol o'r plant a'r bobl ifanc wedi clywed am Anghenion Addysgol Arbennig, Anghenion Dysgu Ychwanegol, AAA nac ADY, ond roedd mwy ohonyn nhw wedi clywed am 'anghenion arbennig'.

- ✓ Mae 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio mewn rhai lleoedd yn barod yn lle Anghenion Addysgol Arbennig, er bod hynny'n digwydd yn yr ystyr ehangach o gynnwys grwpiau eraill o bobl ifanc, megis plant Mwy Abl a Thalentog.

- ✓ Esboniodd un ysgol na fyddai llawer o'r plant ar eu cofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol/ Anghenion Addysgol Arbennig yn gwybod eu bod arni, na'u rhieni ychwaith. Mae'n bosibl y byddent yn ymwybodol bod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw â rhai elfennau o'u dysgu, a dyna i gyd.

- ✓ Roedd y mwyafrif o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn yn amheus faint o welliant ddaw yn sgil newid geiriau neu acronymau; ac nid oedd gwell ganddyn nhw'r un na'r llall. Maent yn deall y gall fod arwyddocâd negyddol i Anghenion Addysgol Arbennig, ond nid ydynt yn credu y byddai hynny'n newid mewn gwirionedd trwy ddefnyddio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ei le; nid am hir beth bynnag. I rai, mae'r holl angen am y fath labelu'n niweidiol.

- ✓ Roedd rhai o'r lleill oedd yn erbyn y cynnig yn ddigon hapus â'r term presennol, ac nid oeddent yn gweld bod angen ei newid.

- ✓ Roedd y rhai oedd o blaid y cynnig o'r farn bod gan Anghenion Addysgol Arbennig ddelwedd wael, ac yn benodol y gair 'arbennig'. Awgrymwyd y byddai Anghenion Dysgu Ychwanegol yn well gan na fyddai cymaint o bobl yn deall ei ystyr, ac felly na fyddai'n denu'r un gwarthnod. Mae'n swnio'n well nag Anghenion Addysgol Arbennig hefyd.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Beth am ei alw'n WYCH, neu'n HYNOD WYCH?'

'Anghenion Addysgol Amgen - mae defnyddio acronymau fel cerdded ar flaenau'r traed o gwmpas y broblem'

'Dim ond gwleidyddiaeth yw e'

'Pam bod Llywodraeth Cymru mor hoff o acronymau?'

'Mae angen llawer o addysg i'w ddeall'

'Dim ond newid y geiriau'


'Nid Anghenion Addysgol Arbennig nac Anghenion Dysgu Ychwanegol - dim ond rhywun y mae angen cymorth arno'

'Gwell gen i Anghenion Dysgu Ychwanegol nac Anghenion Addysgol Arbennig, gan nad yw neb arall yn gwybod amdano na beth mae'n golygu'

'Anghenion Addysgol Arbennig - label - twp, araf, hurt'

'Mae arbennig yn nawddoglyd'

A ddylai pob plentyn neu berson ifanc sydd ag angen arno gael cynllun datblygu unigol sy'n nodi pa gymorth sydd ei angen a phwy ddylai ei ddarparu?




**Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Mae cytundeb cyffredinol y byddai cynlluniau o ddefnydd i blant a phobl ifanc y mae angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol arnyn nhw, ac i'r oedolion sy'n gorfod eu cynorthwyo.
- ✓ Fodd bynnag, byddai'n well gan lawer pe byddai modd cadw'r cynlluniau hyn yn weddol gyfrinachol, heb dynnu sylw atyn nhw.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Mae'n ein helpu, ac yn ein gwneud yn well'

'Fel bod pawb yn gwybod, ac os oes ymwelwyr, gallan nhw eu darllen a deall yn syth'


'On'd oes gennym ni un yn barod?'

'Gwych i fod â chynllun'

'Bydd yn ddefnyddiol'

'Peidiwch â thynnu sylw ato - mae'n denu sylw gwael'

A ddylai'r Cynllun Datblygu Unigol hwn ddisodli'r holl gynlluniau eraill? (er enghraifft Gweithredu gan yr Ysgol a Datganiadau)




**Roedd tua dwy ran o dair o'r rhai a holwyd yn cytuno â hyn.**


**Pwynt Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Mae'r gwahaniaeth barn am hyn yn ganlyniad, yn rhannol, i ddiffyg hyder yn effeithiau'r cynlluniau a/neu oherwydd nad oedd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth am y cynlluniau presennol i allu gwneud dewis gwybodus.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Ond os oes angen rhagor o gymorth ar rywun, dylai fod yn y cynllun'

A ddylai fod canllawiau i helpu'r gweithwyr proffesiynol sy'n eich cefnogi i wybod beth sydd angen ei roi yn y cynllun, ac i sicrhau bod hynny'n digwydd?




**Roedd tua dwy ran o dair o'r rhai a holwyd yn cytuno â hyn.**


**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn cytuno â hyn o'r farn mai synnwyr cyffredin yw e.
- ✓ Roedd rhywfaint o bryder nad gorfodi pawb i'w wneud yn yr un ffordd fyddai orau.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Na, mae'n eu drysu. Mae ganddyn nhw eu ffordd eu hun o wneud pethau.'

A ddylai ysgolion wneud eu gorau glas i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw?




**Roedd y mwyafrif yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**


- ✓ Roedd y rhai oedd yn cytuno o'r farn mai synnwyr cyffredin yw e.
- ✓ Roedd y rhai nad oedd mor sicr yn gwneud sylwadau, i raddau, ar ba mor effeithiol yw'r cymorth maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd, yn eu barn hwy.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Gall y staff fod yn barod i helpu' 'Mae'r Pennaeth yn barod i helpu weithiau (pan mae'n dymuno)'

'Unrhyw un gyda chyfrifoldeb am addysg'

A ddylai plant dros 16 oed mewn addysg (er enghraifft mewn Coleg Addysg Bellach) gael yr un fath o gynllun a chymorth?




**Roedd oddeutu dwy ran o dair yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Nododd hwyluswyr Dynamix fod yr ymateb yn fan hyn yn dueddol o amrywio gan ddibynnu ar oedran y cyfranogwyr; roedd y rhai oedd agosaf at adael yr ysgol, a'r rhai oedd eisoes mewn coleg, yn fwy tebygol o gytuno.
- ✓ Ymddengys yr oedd y lefel o gymorth oedd ei angen arnyn nhw, yn eu tyb hwy, yn effeithio ar eu teimladau am hyn hefyd.
- ✓ Ar y cyfan, roedd y rhai oedd yn anghytuno'n teimlo y dylech fod yn ddigon hen ac yn gallu gofalu am eich hunain i raddau mwy erbyn i chi adael yr ysgol. Iddyn nhw, mae gwahaniaeth rhwng bod yn blentyn neu berson ifanc yn yr ysgol a bod

yn oedolyn, gan gynnwys o ran faint o ddylanwad yr ydych am i'ch teulu ei gael wrth wneud penderfyniadau.

- ✓ Roedd rhai'n teimlo y dylai'r cynllun newid wrth iddyn nhw adael addysg orfodol, wrth newid o un cyfnod o'ch bywyd i gyfnod arall.

- ✓ Roedd y rhai a gytunodd yn deall y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw o hyd wrth iddyn nhw barhau i ddysgu. Awgrymwyd bod hyn yn amser pontio, a bod angen cymorth cyson.


- ✓ Awgrymodd nifer o'r rhai a gytunodd y dylai Cynlluniau Datblygu Unigol barhau, y dylid eu hymestyn i gynnwys, er enghraifft, hyfforddiant ar gyfer gwaith (gan gynnwys prentisiaethau) a chwrs sgiliau bywyd.

- ✓ Awgrymodd eraill y dylai fod dewis, ac y dylech allu penderfynu a ydych am i'ch cynllun barhau ar ôl i chi symud ymlaen o'r ysgol.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

> 'Pleidleisiwch â'ch traed - niferoedd yw'r dull gorau - ni ddylech fynd ond i goleg a all ddarparu cymorth digonol'
>
> 'mae'n tyfu lan, mae'n gwella'
>
> 'Dylai bara tan eich bod yn 18 oed yn unig - gan eich bod yn oedolyn wedyn, dylech allu ei wneud eich hunain'
>
> 'gan ei fod yn datrys problem newydd'
>
> 'Mae angen i'r cynllun newid wrth i'w fywyd newid'
>
> 'Dylid eich cynnwys chi heb eich teulu pan fyddwch yn cyrraedd 16/18/20 oed'
>
> 'Dylech gael hyfforddiant i fyw neu gymorth gydag arholiadau a fydd yn eich helpu i gael swydd'
>
> 'Help gyda bwyta, sillafu, teithio o amgylch y coleg, darllen, coginio, celf. Gallai fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw'
>
> 'Os ydych chi eisiau'

**A ddylai plant a phobl ifanc ond mynd i ysgolion sy'n gallu diwallu eu hanghenion?**




**Roedd y mwyafrif yn cytuno â hyn.**

**Pwynt Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Cydnabuwyd bod rhai ysgolion mewn sefyllfa dda i'w helpu gydag ystod eang o sgiliau a chyfleoedd i gael profiadau gwahanol, yn ogystal â gyda gwaith academaidd.


**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Pan fyddan nhw'n ein helpu, mae'n gwneud i ni ddysgu pethau'

'Cymorth gyda darllen, ysgrifennu, Gwobr Dug Caeredin, teithiau - canŵio, gwersylla, bowlio'

NOD 2 **Un system o gydweithio fel bod pob gwasanaeth yn gallu camu i mewn yn gynnar â'r cymorth iawn i blant a phobl ifanc y mae angen help arnyn nhw â dysgu.**

A ddylai awdurdodau lleol gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a gwrando ar eu barn nhw wrth ystyried pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw?




**Roedd y mwyafrif yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Er bod y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc yn cytuno y dylen nhw a'u teuluoedd gael bod yn bresennol mewn cyfarfodydd, ac y dylid cymryd eu barn i ystyriaeth, roedd gan rai ohonyn nhw bryderon am y broses o wneud hyn.

- ✓ I'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn y broses yn y gorffennol, roedd fel arfer wedi bod mewn rhyw fath o gyfarfod, boed yn weddol anffurfiol yn yr ysgol neu'n fwy ffurfiol gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn bresennol.

- ✓ Nid oedd y rhai oedd wedi mynychu cyfarfodydd yn y gorffennol (ac nid oedd pawb wedi gwneud hynny) wedi mwynhau'r profiad bob amser. Dywedodd rhai eu bod yn teimlo na wrandawyd arnynt, neu fod y cyfarfodydd yn eu danto neu'n ddiflas.

- ✓ Cyfeiriwyd at amseru'r cyfarfodydd, yr un peth â'r sesiynau cymorth, a gall hyn olygu eu bod yn colli gwersi pwysig. Hefyd, mae'n bosibl na fyddai rhai'n gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill.

- ✓ Roedd y farn yn amrywio ynghylch oedran y plant y dylid eu cynnwys. Awgrymodd rhai y dylent fod ym Mlwyddyn 3 o leiaf, ond roedd nifer gyfartal yn cynnig y dylid cynnwys plant cyn gynted ag y gallant ddeall neu fod yn ymwybodol bod problem. Byddai'r 'sylw priodol' y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gofyn amdano'n cefnogi'r ail safbwynt.

- ✓ Dywedodd rhai y dylai plant a'u teuluoedd fynychu'r cyfarfodydd ond y dylai'r gweithwyr proffesiynol wneud y penderfyniad, gan eu bod i fod gwybod beth maent yn ei wneud.

- ✓ Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn glir ei bod yn hanfodol gwrando ar blant a phobl ifanc a'u teuluoedd wrth lunio Cynlluniau Datblygu Unigol er mwyn eu cael yn iawn.

- ✓ Roedd llawer o'r farn ei bod yn bwysig iawn i weithwyr proffesiynol glywed beth sydd gan y rhieni i'w ddweud, er yr oeddent hefyd yn dweud nad oedd rhieni bob amser yn pasio penderfyniadau neu wybodaeth ymlaen iddyn nhw.

- ✓ Dywedodd y bobl ifanc y gall y bobl oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd fod yno am wahanol resymau, a bod pobl eraill yn eu bywydau, megis ffrindiau, a allai ychwanegu at y darlun ehangach amdanynt. Byddai rhai yno i roi cefnogaeth, rhai i rannu gwybodaeth, a rhai i helpu wrth ddod i benderfyniadau.

- ✓ Roedd mwy o'r farn ei bod yn allweddol gwrando arnyn nhw hefyd, gan barchu eu barn. Dywedodd rhai nad oedd rhieni, hyd yn oed, yn gwybod y darlun cyfan bob amser, ac mai'r plant eu hunain fyddai'n rhoi'r wybodaeth fwyaf cywir am sut oedd pethau'n mynd.

- ✓ Tynnodd un person ifanc sylw at y ffaith fod ganddyn nhw 'hawl' i gael dweud eu dweud, ond heblaw am hynny, nid oedd yn ymddangos bod yr un ohonyn nhw'n gwybod bod ganddyn nhw hawl (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, erthygl 12). Y fantais o gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses Cynllun Datblygu Unigol yw y byddai hynny'n sicrhau hysbysu plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol am yr hyn sy'n digwydd o ran cymorth, yn hytrach na bod hynny ond yn rhywbeth sy'n digwydd iddyn nhw, neu eu bod yn anymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau mewn ffyrdd eraill.

- ✓ Awgrymodd nifer o'r rhai a holwyd y dylai fod yn ddewis, ac y dylid eu gwahodd, ond ni ddylai fod yn rhaid iddyn nhw fynd os nad oeddent yn dymuno.

- ✓ Gan gadw'r adborth hwn mewn meddwl, os ydym i gynnwys plant a phobl ifanc fel y dylid, yna dylai'r rhai sy'n trefnu cyfarfodydd sicrhau bod y bobl ifanc wrth wraidd y broses trwy'r amser. Dylai'r lleoliad, yr amseru, a'r cynnwys fod yn hygyrch ac yn groesawgar iddynt, gan dalu sylw o ddifrif i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

- ✓ Yn yr un modd, os cânt eu gwahodd i rannu eu barn mewn ffyrdd eraill (yn hytrach nag wyneb yn wyneb), dylid mynd ati gan ddefnyddio dulliau addas, clir a hawdd eu deall.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

> 'gallan nhw fod yn nerfus neu'n ofnus, yn pryderu neu'n teimlo embaras - ddim eisiau clywed pobl yn dweud pethau gwael amdanoch'
>
> 'Dylen nhw fod yn sbri - ac yn ddiddorol - a dylai fod losin ar gael!'
>
> 'Mae rhai plant yn rhy ifanc'
>
> 'Eich bywyd chi yw e, dydyn nhw ddim yn gwybod - does ganddyn

nhw ond yr wybodaeth a roddwyd iddyn nhw'

'Dylem gael gwybod, ond mae gweithwyr proffesiynol yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud'

'Dylech fod yn y cyfarfodydd i gael dweud beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio'

'Mae angen iddyn nhw wybod am beth sydd ganddyn nhw neu beth sy'n ddiangen'

'Mae hawl i fod yno - mae clywed eu barn yn fwy o fewnweledIad'

'Fel bod modd rhoi mwy o wybodaeth gan y person ifanc i'r sawl sy'n llunio'r Cynlluniau Datblygu Unigol / adolygiadau'

'Maen nhw'n gofyn cwestiynau - roeddwn i'n teimlo ar goll braidd'

'Brawd i gael dweud ei ddweud ond heb fod yn rhan o wneud y penderfyniad'

'Gallan nhw wneud penderfyniadau hurt os nad ydych chi na'ch rhieni'n cael mewnbwn'


'Fel arfer dim ond mam a dad neu'r gofalwr sy'n cael gwneud, a dydyn nhw ddim yn dweud wrth y plant'

'Weithiau, nid oes gan rieni ddigon o wybodaeth oherwydd nad yw'r plant yn dweud wrthyn nhw'

'Byddai rhai o'r bobl sydd yno'n darparu cymorth, rhai'n darparu gwybodaeth a chyngor (ffrindiau ac yn y blaen). Dyma'r rhai gyda'r mewnwelediad gorau. Arbenigwyr.'

'Dywedwch beth sydd gennych i'w ddweud; peidiwch â meddalu'r neges'

A ddylai cynlluniau datblygu unigol gael eu hadolygu bob blwyddyn, a'u newid os oes angen?




**Roedd y mwyafrif yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Mae'r rhifau yn fan hyn ychydig yn gamarweiniol, gan yr oedd y rhan fwyaf o'r rhai nad oedd yn cytuno'n egluro yr oeddent o'r farn y dylid adolygu'r cynlluniau'n *fwy aml* nac unwaith y flwyddyn; o gofio hynny, roedd consensws llwyr, ymron, â'r cynnig hwn.
- ✓ Roedd y rhan fwyaf yn dweud y dylid edrych ar y Cynlluniau Datblygu Unigol tua dwywaith y flwyddyn, neu deirgwaith y flwyddyn/ unwaith y tymor. Roedd nifer o gyfranogwyr o'r farn y dylai hyn ddigwydd yn fwy aml na hynny (gan amrywio o bob wythnos i bum gwaith y flwyddyn), er yr oeddent yn derbyn y gellid cael nifer o fân adolygiadau yn hytrach nag adolygiad llawn bob amser.
- ✓ Awgrymwyd y gallai nifer yr adolygiadau amrywio ar gyfer pob unigolyn, gan ddibynnu ar anghenion neu oedran neu adeg bontio bwysig, ac y gallant fod yn hyblyg gan eu haddasu pan ddaw'n glir bod newid sylweddol yn y ffordd y mae rhywun yn ymdopi.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'O leiaf unwaith y flwyddyn'

'Teirgwaith y flwyddyn i gyfateb â'r tymor ysgol'

'Pum gwaith y flwyddyn - unwaith bob tymor, gydag adolygiad yn ystod gwyliau'r ysgol i weld os yw anghenion y disgybl

wedi newid'

'Adolygiadau llawn, a mân adolygiadau'

'Pryd bynnag y byddwch yn cyflawni rhywbeth – camau mawr ymlaen, nid rhywbeth bach fel codi o'r gwely'

'Gwirio a yw pethau wedi gwella; a ydynt wedi newid er gwell neu er gwaeth'


'Gwirio a oes angen y cymorth o hyd'

'Bod yn rhan o lunio cynllun ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd – hyd at 25 oed'

Dylid edrych ar y Cynlluniau Datblygu Unigol yn fwy aml – o leiaf bob chwe mis i wirio cynnydd ac i wneud newidiadau cyflymach'

'Mae'n dibynnu ar yr unigolyn – mae angen rhagor o gymorth, gwybodaeth, a chynllunio ar rai – mae angen llai o ymyriadau ar eraill'

A ddylai pobl sy'n gweithio gyda phlant ifainc iawn wybod beth i'w wneud os byddant yn sylweddoli bod plentyn yn cael anhawster dysgu?




**Roedd y mwyafrif yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**


- ✓ Roedd y rhan fwyaf yn dweud bod hyn yn synnwyr cyffredin, a bod ymyriadau cynnar yn bwysig.

- ✓ Cydnabuwyd hefyd ei bod yn bosibl i weithwyr proffesiynol gamddeall yr arwyddion mewn plant ifanc, ac y dylent fod yn ymwybodol o hyn wrth wneud penderfyniadau am blant ifanc.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

> 'Ni ddylen nhw fod yn gweithio gyda phobl ifanc os na allan nhw gydnabod yn gynnar bod angen cymorth arnyn nhw'
>
> 'Roedden nhw'n credu bod gan ein brawd bach Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond wedyn sylweddolon nhw ei fod yn llawchwith'
>
> 'Ymyriad cynnar'
>
> 'Dydyn nhw ddim bob amser yn ei chael yn iawn'

A ddylai'r bobl sydd yno i helpu, megis meddygon, athrawon a gweithwyr cymdeithasol, gydweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw?




**Roedd mwyafrif y rhai a holwyd yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn cytuno â'r cynnig hwn, ond nid heb rywfaint o bryder.

- ✓ Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn canolbwyntio ar 'gydweithio' ar ffurf cyfarfod wyneb yn wyneb sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol, oherwydd dyna brofiad llawer ohonyn nhw o weithio amlasiantaethol.

- ✓ Roedd y pryderon a'r cyngor ynghylch y cynnig hwn yn ymwneud gan fwyaf â chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Efallai y bydd angen cydnabod, ac efallai gwahanu, rhai o'r pryderon ymarferol hyn er mwyn ystyried sut y gall dulliau eraill o gydweithio lwyddo. Mewn egwyddor, fodd bynnag, credir ei bod yn syniad da.

- ✓ Roedd rhai'n gofyn pa mor ymarferol yw'r cynnig hwn mewn gwirionedd o ran cost, capasiti, a llwyth gwaith y gweithwyr proffesiynol gwahanol, a sicrhau digon o le i bawb y mae angen iddyn nhw fod yno.

- ✓ Mynegwyd pryder y gall casglu pawb ynghyd wanedu sgiliau'r unigolion sy'n bresennol. Mynegwyd pryder y gall fod llai o ffocws mewn rhai meysydd, neu y gellid colli pethau. Os aiff hyn yn ei flaen, mae angen gwneud ymdrech i sicrhau ystyried popeth y mae angen ei ystyried. Yn yr un modd, dylid gofalu nad yw cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn teimlo'n anhrefnus. Ni ddylid gwahodd yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol bob amser, na'r rhai sydd â chyswllt tenau â'r plentyn neu'r person ifanc ar y pryd; dim ond y rhai y mae angen iddyn nhw fod yno.

- ✓ Roedd rhai o'r bobl ifanc am sicrhau y byddai rhai pethau'n aros yn gyfrinachol neu'n breifat, er enghraifft ymweliadau â'r meddyg.

- ✓ Fel y nodwyd ynghynt, ar y cyfan credir bod y cynnig hwn yn gadarnhaol.

- ✓ Gall cyfarfodydd ar wahân deimlo'n ailadroddol, a mynd yn ormodol. Yn gyffredinol, credir bod y cynnig hwn yn haws o bersbectif y plant a'r bobl ifanc. Mae'n golygu llai o amharu ar eu bywyd ysgol, ac mae'n llai o her iddyn nhw siarad â gweithwyr proffesiynol. Mae'n haws gwneud hynny unwaith yn hytrach na sawl gwaith, fel sy'n digwydd dan y drefn bresennol yn eu barn nhw.

- ✓ Roedd y rhai a holwyd yn gobeithio y byddai sefyllfa lle mae pawb yn cydweithio'n golygu ymdrin â materion yn llawer cynt ac yn fwy effeithiol, ac y byddai gan bawb ddarlun llawer cliriach fyddai'n golygu bod cynllunio'n fwy effeithiol.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Ie, ond mae'n gostus o ran amser, yn arbennig os mae'n digwydd yn aml'

'Cadw rhai pethau'n breifat'

'Pawb yn cydweithio, pawb yn deall'

'Gall fod yn rhy anhrefnus'

'Rydych chi'n mynd i un cyfarfod, ac wedyn cyfarfod arall, ac

maen nhw'n dweud yr un peth'

'Gall fynd yn ormodol os ydych mewn gormod o gyfarfodydd'

'Ar wahân, i sicrhau trafod popeth'

'Ni fydd yn amharu ar wersi cymaint'

'Hyder - dim ond angen esbonio'ch problemau unwaith'


'Mae'n drysu pethau os ydych chi'n dweud pethau llawer gwaith'

'Mwy o fewnwelediad trwy gyd-drafod y safbwyntiau gwahanol. Cynllunio gwell pan ddaw'r wybodaeth at ei gilydd'

'Haws i'r plentyn i gael pawb at ei gilydd'

'Nid oes gan bawb yr un problemau - sdim angen pawb'

## A ddylai bob ysgol fod â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol?




**Roedd mwyafrif llethol y cyfranogwyr yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Mae'n glir i'r bobl ifanc bod cael rhywun yn yr ysgol i gydlynu eu cymorth yn beth doeth.

- ✓ Maent o'r farn y dylai'r person fod yn gymwys iawn i'r swydd, bod yn DDA wrth wneud y gwaith, ac ar gael pan fo angen. Wrth ymateb i gwestiwn cynt, awgrymodd llawer o'r bobl ifanc y dylai cymorth a dealltwriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol ymestyn i'r gymuned ysgol ehangach trwy'r holl staff cymorth, athrawon y brif ffrwd, a'r tu hwnt. Yn ddelfrydol, byddai Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unigolyn a allai feithrin yr ethos delfrydol a chadarnhaol hwn.

- ✓ Roedd y cynnig hwn yn sbarduno rhywfaint o drafodaeth am ysgolion arbennig. Roedd rhai disgyblion mewn ysgolion y brif ffrwd o'r farn nad ydynt yn beth da, ac nad oedd eu profiad ohonyn nhw wedi bod yn gadarnhaol. Roedd eraill yn gwrthddweud hyn trwy ddweud y gallant fod yn lleoliad mwy delfrydol i rai pobl ifanc o ran diwallu anghenion gwahanol unigolion.

- ✓

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Cael cydlynydd GWYCH'

'Ie i wasanaethau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol'

'pan fydd gan rywun cynllun, byddan nhw'n sicrhau ei wireddu'


'dydych chi ddim yn gwybod a allan nhw ddod i mewn bob diwrnod'

'gallan nhw fod yn wael neu anghofio pethau sydd eu hangen arnyn nhw'

'Ie - ac adran'

A ddylai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal oddi wrth yr awdurdod lleol gael yr un fath o gynllun yn lle'r cynlluniau

addysg personol sydd ganddyn nhw ar hyn o bryd?




**Roedd y mwyafrif a deimlodd eu bod yn gallu ymateb i'r cynnig hwn o'i blaid.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd llawer o'r bobl ifanc yn teimlo nad oedd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth na phrofiad o dderbyn gofal i ateb y cwestiwn hwn yn iawn.
- ✓ Er gwaethaf hyn, rodd rhai'n gallu ymateb ar ôl cael mwy o esboniad, ac eraill trwy brofiad uniongyrchol, felly cafwyd nifer rhesymol o ymatebion.
- ✓ Roedd rhai'n holi a ddylid seilio hyn ar angen. Roedd rhywfaint o deimlad bod plant sy'n derbyn gofal yn cael llawer o gymorth ychwanegol beth bynnag, ac weithiau roedd cymorth ar gael pan nad oedd angen ar y bobl ifanc dan sylw, mewn gwirionedd. Yn yr un modd, roedd eraill yn pryderu na fyddai plant sy'n derbyn gofal yn cael digon o gymorth.
- ✓ Cydnabuwyd bod addysg yn ddyrys weithiau i blant sy'n derbyn gofal, am nifer o resymau, a'i bod yn bwysig gwirio'r sefyllfa a darparu cymorth, cymaint ag y bo modd. Teimlwyd y gallai Cynlluniau Datblygu Unigol sicrhau bod y cymorth hwn yn gyson â'r hyn sydd ar gael i bobl ifanc eraill y mae angen cymorth ychwanegol arnyn nhw. Yn y bôn, os oes angen cymorth ychwanegol ar rywun, am ba reswm bynnag, dylai dderbyn y cymorth hwnnw.
- ✓ Roedd rhywfaint o bryder bod perygl ychwanegu at y cynlluniau a'r labeli sy'n rhan o brofiad plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, os bydd Cynllun Datblygu Unigol yn symleiddio'r broses, gall fod yn beth da.
- ✓ I nifer o blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol, mae gofal seibiant yn elfen bwysig o'u bywydau; pan fydd y gofal hwn yn cyrraedd lefel benodol, tybir bod y person ifanc yn blentyn sy'n derbyn gofal. Roedd o leiaf un person ifanc yn pryderu y gall newid cynlluniau a chwtogi ar wasanaethau mewn

rhyw ffordd effeithio ar eu gofal seibiant.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Mae arnyn nhw anghenion emosiynol ychwanegol sy'n amharu ar ddysgu'

'Mae'n ffordd ychwanegol o ofalu amdanyn nhw'

'Nid oes angen Cynllun Datblygu Unigol ar bawb - neu efallai dylai PAWB gael un - dim gwarthnod'

'Ie - os amherir ar eu dysgu, mae angen Cynllun Datblygu Unigol i'w cadw ar y trywydd iawn. Hefyd fel nad ydynt yn pryderu am bethau eraill sy'n digwydd yn eu bywydau. Sicrhau eu bod yn derbyn gofal go iawn, ac yn gallu parhau i weithio.'

'Weithiau, gall effeithio ar eu prosesau dysgu, ond weithiau nid oes angen dim byd - mae gan un disgybl Ddatganiad, Cynllun Dysgu Unigol, Cynllun Addysg Personol...'

'Cadw'r cyfan yn syml'

'Dylai pob plentyn gael yr hawliau a'r cymorth sydd eu hangen arno, hyd yn oed os bydd mewn gofal maeth neu mewn teulu.'


'Os bydd pethau'n newid, dwi'n pryderu y gall y gofal seibiant ddiflannu hefyd'

'Dwi'n credu y dylai plant sy'n derbyn gofal gael yr un cynlluniau a'r un cymorth. Ni ddylai ddigwydd bod rhai'n cael llawer o gymorth ac eraill yn mynd heb gymorth.'

'Mae'r plant hyn yn cael gormod o gymorth beth bynnag, pan nad oes ei angen efallai. Mae mwy o angen cymorth ar rai eraill.'

| NOD 3 | **Cyngor, cymorth a gwybodaeth eglur sy'n deg i bawb os bydd pethau'n mynd o chwith neu os nad ydyn nhw'n hoffi penderfyniad.** |
|---|---|


A ddylai plant, pobl ifanc a'u rhieni allu cael yr holl wybodaeth a chyngor sydd eu hangen arnyn nhw?




**Cytunodd y mwyafrif**.

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

**A ddylid datrys problemau ynghylch cymorth dysgu cyn gynted â phosibl, fel nad ydynt yn mynd yn waeth neu'n mynd i dribiwnlys?**




**Cytunodd y mwyafrif.**

**Pwynt Allweddol a Godwyd:**


- ✓ Er yr oedd y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn teimlo bod hyn yn gwestiwn hawdd i'w ateb, roedd ychydig yn glir iawn na ddylai olygu brysio er mwyn brysio, ac wedyn creu cymhlethdodau neu broses wael.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Cadw pethau'n araf ac yn rhwydd'

'Ni fydd canlyniad brysiog gystal â chanlyniad lle cymerwyd digon o amser'

A ddylai fod modd i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed fynd i dribiwnlys i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw?




**Roedd y mwyafrif yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd mwyafrif llethol o'r farn y dylai pobl ifanc a'u teuluoedd gael herio'r broses mewn tribiwnlys os bydd problemau neu anfodlonrwydd yn parhau. Un pryder oedd y dylai'r broses sicrhau ystyried yr holl fanylion pwysig.

- ✓ Heriwyd yr elfen oedran yn y cynnig hwn. Roedd rhai'n dymuno cael herio'r broses o edrych yn ôl (ar ôl cyrraedd 25 oed) os oes angen, ac roedd eraill yn amau a ddylai fod angen i berson ifanc gynnwys ei deulu yn y broses ar ôl cyrraedd 16 oed. Codwyd cwestiwn ynghylch yr angen i blant a phobl ifanc gynnwys eu teuluoedd yn y broses. Diddorol oedd nodi bod hyn yn bryder, o ystyried y sefyllfa bresennol, lle caiff unrhyw un sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (beth bynnag ei oedran) apelio i'r Tribiwnlys heb fod angen cynnwys ei rieni.


**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Efallai na chewch yr holl wybodaeth yn y Tribiwnlys'

'dylai pobl dros 25 oed gael gwneud hyn hefyd er mwyn cael cymorth' (os byddan nhw'n apelio ynghylch rhywbeth a ddigwyddodd pan oedden nhw'n iau)

'Dros 16 oed, dylech chi gael gwneud hyn ar eich pen eich hunain'

A ddylai fod modd i blant a phobl ifanc allu cael help oddi wrth rywun y maen nhw'n ymddiried ynddo os ydyn nhw eisiau cwyno am y cymorth maent yn ei dderbyn?




**Roedd y mwyafrif yn cytuno â hyn.**


**Pwynt Allweddol a Godwyd:**

✓ Roedd y plant a'r bobl ifanc a holwyd o'r farn yr oeddent am gael cefnogaeth eu teulu, a ffrindiau o'u bywyd beunyddiol, yn ogystal ag eiriolwyr proffesiynol.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'rhieni, teidiau a neiniau, ffrindiau, brawd neu chwaer, athro.'

A ddylai rhywun penodol fod â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod y broses yn deg?




## Unrhyw beth arall

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Paham nad yw bobl ifanc sy'n ddigartref yn derbyn cymorth?'

'Dylai fod rhywfaint o welliant, hyd yn oed os nad yw'n amlwg ar y dechrau - mae angen i hyn ddigwydd cyn gynted ag y bo modd'

'Pryderu y gall pethau newid os bydd Prif Weinidog gwahanol'

'Dylai fod mwy o unedau arbennig megis Canolfan Dereck Roberts mewn ysgolion - mae'n gyflymach os bydd angen cymorth ar rywun, mae mwy o athrawon.'


'Cymaint o jargon yn hyn i gyd - anodd ei ddeall.  Mae angen cadw pethau'n syml iawn i sicrhau gallu cynnwys pobl ifanc o ddifrif.'

'Dylai mwy o bobl allu adnabod pethau fel awtistiaeth neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd fel bod modd eu hadnabod yn gynnar.'

'Mae angen i bobl roi tipyn o broc i'w syniadau i helpu pobl i gael bywyd gwell.'

## Dylai hyn fod yn ddilys ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc sydd

ag anghenion dysgu ychwanegol.



# CANLYNIADAU RHIENI A GOFALWYR

## TROSOLWG O GANLYNIADAU RHIENI A GOFALWYR

Roedd 55 o rieni a gofalwyr yn rhan o'r elfen hon o'r ymgynghoriad.  Roedd y rhain yn cynnwys rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc oedd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad, yn ogystal â rhai oedd wedi gofalu am blant eraill.  Roedd ysgolion eu plant yn gyfuniad o ysgolion y brif ffrwd, ysgolion arbennig, ac unedau dysgu arbenigol yn gysylltiedig ag ysgolion y brif ffrwd.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni'n cytuno â'r rhan fwyaf o'r cynigion mewn theori, ac o'r farn bod yr awgrymiadau'n gryf mewn egwyddor.

Mae pryderon, fodd bynnag.  Fel y dywedodd un rhiant, 'yn y manylion y mae'r maglau.'  Mae llawer ohonyn nhw'n ymdrechu i gadw'n gyfredol â newidiadau, ond roeddent yn dal o'r farn nad oeddent yn ddigon gwybodus i fedru ymateb.  Dywedodd nifer ohonyn nhw fod ganddyn nhw ormod o gwestiynau nas atebwyd yn y Papur Gwyn, a gall hynny effeithio ar eu safbwynt.  Ar ben hynny, maent yn amheus ac yn bryderus ynghylch rhai o'r newidiadau arfaethedig.  Sut fydd y pethau hyn yn gweithio'n ymarferol, ac a fyddai'n golygu y byddai'u plant yn colli'r cymorth maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd?

Roedd effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth arfaethedig o ran Cynlluniau Datblygu Unigol yn bryder mawr.   Roeddent yn pryderu a fyddai gan Gynlluniau Datblygu Unigol yr un grym ag a roddir, yn eu tyb nhw, i Ddatganiadau ar hyn o bryd.  Ystyrir hyn ymhellach gyda'r cynnig mai Cynllun Datblygu Unigol fyddai'r unig gynllun.

Codwyd dwy thema allweddol gan rieni a gofalwyr.  Amlygir y rhain islaw, a dylid deall y rhain cyn edrych yn fanwl ar eu hatebion llawn i'r cwestiynau.

### THEMA 1 Atebolrwydd a gweithredu

Mae atebolrwydd yn bryder; pwy fydd yn rheoli Cynllun Datblygu Unigol y plentyn i sicrhau cydlynu ar sail feunyddiol, a phwy, yn y diwedd, sy'n atebol os nad yw'r cymorth yn foddhaol.  Mae hefyd cwestiynau ymarferol ynghylch amseru'r newidiadau a'r meini prawf ar gyfer derbyn plant i ysgolion.  Hoffai rhieni a gofalwyr dderbyn sicrwydd y ceir dilyniant trylwyr i'r newidiadau arfaethedig.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Pryd bydd hyn ar waith?'

'Pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn gweithio'n dda? PWY sy'n gyfrifol am y Cynllun Datblygu Unigol?  Hynny yw, ei arwain, a'i yrru yn ei flaen.'

'Fydd mwy o gyfrifoldeb ar ysgolion sydd heb y sgiliau / adnoddau / arian i ddarparu cymorth addas?'

'Tybir bod y cynllun yn waith wedi'i gwblhau.  Blwch wedi'i dicio.  Tybir mai e yw'r prif ffocws.  Anaml iawn y mae'r hyn sy'n digwydd wedyn yn cael ei wirio, neu'n destun i

ddilyniant. Yn aml, anwybyddir Cynllun Addysg Unigol ac asesiadau dyslecsig.'

Beth yw'r meini prawf ar gyfer derbyn i ysgol arbennig os nad oes system Datganiad bellach?'

'Mae Penaethiaid yn pryderu gan amlaf am gyflawniadau academaidd/ chwaraeon - os yw Llywodraeth Cymru'n gosod safonau, beth fydd yn digwydd?'

'A fydd y cynlluniau'n newid os bydd llywodraeth wahanol?'

THEMA 2 Cost a chapasiti

Mae llawer o rieni a gofalwyr yn pryderu am y gost bosibl o roi'r cynllun hwn ar waith ac am gapasiti'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, boed mewn ysgol neu'n rhan o'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, i wneud y gwaith yn iawn.

Mae llawer o gwestiynau ynghylch yr arian sydd ar gael am hyn os yw'r cynllun i gael ei weithredu'n llwyddiannus. Mae ofn lledu'r adnoddau'n rhy denau os na neilltuir digon o arian i sicrhau bod hyn oll yn gweithio, ac ofn y bydd eu plant ar eu colled o ganlyniad.

Mae gan rai rhieni bryder difrifol y bydd yr holl system yn mynd yn rhy wanedig, a bod y cynigion yn ceisio gwneud gormod gyda rhy ychydig o adnoddau.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'A gollir adnoddau o siroedd gwahanol pan fydd siroedd yn cyfuno; fydd unigolion ar eu colled wedyn?'

'Fydd hyn yn golygu dwyn arian o bethau neu bobl lle mae ei angen?'

'Ariannu - mae'r Uned Triniaeth Arbennig yn weddol ddiogel - nid yw'r brif ffrwd yn edrych mor ddiogel. A allai hyn esgor ar fethiant?'

'Sut gweithredir y drefn newydd os nad oes digon o adnoddau?'

'Mae rhai pethau nag ydyn ni'n eu cael, gan nad ydyn ni'n gymwys. Fydd pawb yn cael mynediad at bethau'n sydyn iawn gan y bydd Cynllun Datblygu Unigol gan bob plentyn os oes angen arno? Rydyn ni eisiau hyn; rydyn ni am gael gweithiwr allweddol enwedig. Rydyn ni am gael cyngor diduedd.'

'Unwaith y mae'r Cynlluniau Datblygu Unigol ar waith, fydd y plant sydd ag angen llai o gymorth yn ei golli oherwydd nad yw'r gyllideb yn ddigonol?'

'Oni chynyddir cyfanswm y gyllideb, fydd hyn ddim yn gweithio. Bydd y gwasanaeth a'r cymorth yn wanedig.'

Roedd y rhieni'n glir y dylid ystyried eu cwestiynau a'u pryderon yn drylwyr, ac ymateb iddynt, cyn symud ymlaen gyda'r cynigion.

## CANLYNIADAU AR GYFER POB CWESTIWN

## NOD 1 Un gyfraith ynglŷn â sut i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed y mae angen help arnyn nhw â dysgu.

### A ddylid defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY) yn lle 'anghenion addysgol arbennig' (AAA)?

**Yn gyffredinol, roedd mwyafrif y rhieni a gofalwyr o blaid newid o Anghenion Addysgol Arbennig i Anghenion Dysgu Ychwanegol.**

**Pwynt Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd y rhai o blaid yn nodi, gan fwyaf, eu bod o blaid oherwydd canfyddiadau negyddol am Anghenion Addysgol Arbennig, ac yn benodol y gair 'arbennig'.
- ✓ Mae rhywfaint o amheuaeth pa mor ystyrlon yw'r newid hwn - dim ond newid un acronym am acronym arall, ac ni fydd yn gwneud gwahaniaeth o ddifrif yn y tymor hir.
- ✓ Mae pryder cyffredinol am y gwarthnod o fod ag anghenion dysgu ychwanegol ac unrhyw label a roddir i hyn er mwyn cael cymorth ar gyfer eu plant.
- ✓ Er y rhoddir esboniad, mae rhywfaint o ddryswch am yr hyn a gynhwysir yn 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' yn y cynigion hyn, gan ei fod yn derm a ddefnyddid yn ehangach i gynnwys mathau eraill o anghenion dysgu, gan gynnwys Mwy Abl a Thalentog. Byddai'n well gan rai'r ystyr ehangach hwn na'r ystod o anghenion a awgrymir yn y ddogfen.
- ✓

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Nid yw'r gair negyddol 'arbennig' ar flaen y term.'

'Mae gan y gair 'arbennig' ganfyddiad negyddol ar hyn o bryd, ond yn y dyfodol bydd yr un peth yn wir am Anghenion Dysgu Ychwanegol.'

'Doeddwn i erioed am i'm plentyn gael ei labelu, ond mae angen iddo gael ei labelu nawr cyn y gwneir unrhyw beth.'

### A ddylai pob plentyn neu berson ifanc sydd ag angen arno gael cynllun datblygu unigol sy'n nodi pa gymorth sydd ei angen a phwy ddylai ei ddarparu?

**Pan ofynnwyd y cwestiwn hwn yn gwestiwn cychwynnol, cytunodd pawb y dylai fod**

**gan bob plentyn y mae angen cymorth ychwanegol arno gynllun i gefnogi hynny.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd rhywfaint o ofn am oblygiadau ariannol hyn ar y cyllid a ddarperir i gefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Roeddent yn ofni y byddai'n golygu rhoi'r cymorth angenrheidiol i ragor o blant a phobl ifanc, ac felly'n lledu'r adnoddau sydd ar gael yn fwy tenau.

- ✓ Mae rhywfaint o amheuaeth ynghylch pa mor dda fyddai hyn yn gweithio. Mae nifer o rieni wedi cael profiad negyddol am yr amser a gymerir i gael pethau mewn lle, weithiau am gael ychydig iawn o gymorth. Yn amlwg, mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei gymryd i ystyriaeth.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Sdim angen hyd yn oed meddwl am hyn.'

'Ie - yn bendant, dylid ffocysu mwy ar y person - mae angen gwybod mwy am y plentyn, gweld y darlun ehangach.'

'Cymrodd ddwy flynedd i gael un awr yr wythnos.'

'Mae'n mynd dan y radar - 'dyw gweithwyr cymdeithasol ddim yn gwybod beth mae'r meddygon yn ei wneud. Dylai fod ar gyfrifiadur canolog - dylai popeth gysylltu.'

'Cymerodd ddeng mlynedd i gael llythyr yn ôl o'r gwasanaeth iechyd'

## A ddylai'r cynllun hwn gymryd lle cynlluniau eraill megis Gweithredu gan yr Ysgol a Datganiadau?

**O ran y rhieni a holwyd am hyn, roedd y mwyafrif yn cytuno bod hyn yn syniad da mewn egwyddor cyhyd â bod y cynlluniau'n drylwyr ac yn ystyried yr holl anghenion a gofynion.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Awgrymwyd y gallai wneud y system yn decach gan nad yw bob amser yn gwneud synnwyr pwy sydd â datganiad a phwy sydd heb. Gobeithir, hefyd, y bydd llai o warthnod yn gysylltiedig â Chynlluniau Datblygu Unigol nag â datganiadau.

- ✓ Fodd bynnag, yn arbennig ymhlith rhieni a gofalwyr y rhai gyda datganiad ar hyn o bryd, mae llawer o bryder a nifer o gwestiynau i'w hateb am hyn cyn y byddant yn teimlo y gallant gefnogi'r cynnig hwn yn llwyr.

- ✓ Mae un o'r pryderon yn ymwneud â grym statudol y Cynllun Datblygu Unigol, a phryd y byddai'n dod i rym. Roedd nifer o'r rhieni'n sôn am ba mor galed y buont yn brwydro i gael datganiadau i'w plant, gan ddweud mai hwnna oedd y prif arf oedd ganddyn nhw o ran cael yr hyn oedd ei angen.

- ✓ Eto, mae pryder o ran a fyddai cael yr un math o gynllun i bawb yn gwanedu'r cymorth sydd ar gael i'r plant. A fyddai'n golygu bod mwy o blant yn derbyn mwy o gymorth, a beth fyddai effaith hynny ar y cyllid a'r capasiti sydd ar gael i ddarparu'r cymorth presennol ar y lefel yr oeddent yn teimlo eu bod wedi brwydro i'w chael?

- ✓ Mae dealltwriaeth nad yw'r drefn Datganiadau'n berffaith. Mae'n anghyson o ran pwy sy'n cael cymorth ac o ran y cymorth a gynigir; nid yw bob amser yn canolbwyntio ar yr unigolyn; nid yw pawb bob amser yn glynu wrthi a gall fod yn anhyblyg; ond mae'n drefn sydd, yn eu tyb nhw, yn rhoi rhywfaint o rym iddyn nhw ac i'w plant, ac maent yn teimlo eu bod mewn gwell sefyllfa i gael yr hyn sydd ei angen.

- ✓ Os gellid rhoi sicrwydd i rieni a gofalwyr y bydd eu plant yn derbyn y cymorth y dylent fod â hawl i'w gael yn ogystal ag ateb clir am rym statudol y Cynlluniau Datblygu Unigol, os bydd y Cynlluniau Datblygu Unigol yn drylwyr ac yn darparu'r hyn a nodir ynddynt, ac os na fydd y cynigion yn arwain at leihau'r cymorth sydd ar gael, yna byddant yn llawer mwy cefnogol i'r cynigion ar gyfer y drefn newydd. Ond mae cryn dipyn o ffordd i fynd i leddfu eu hofnau.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

> 'Mae'r system Datganiadau'n wael - mae rhai'n cael datganiad, dyw eraill ddim, ac nid ydynt bob amser yn cael pethau'n iawn.'
>
> 'Gwell i'r plant - llai o warthnod, llai o fwlian.'
>
> 'Os bydd yn haws na chael datganiad.'
>
> 'Sut mae hyn yn disodli'r hen drefn a dod yn gynllun sy'n addas i bawb? Pryd mae'n cael grym statudol?'
>
> 'Ydyn ni'n gofyn i bobl roi'r gorau i Ddatganiadau? Mae'r risg yn rhy uchel. Gawn ni'r un cymorth?'
>
> 'Mae'n rhaid i'r iaith a ddefnyddir fod yn fanwl gywir - mae'r drefn Datganiadau yn wych o'r golwg cyntaf, ond mae'n methu pan ddaw at y manylion.'

A ddylai fod canllawiau i helpu'r gweithwyr proffesiynol sy'n eich cefnogi i wybod beth sydd angen ei roi yn y cynllun, ac i sicrhau bod hynny'n digwydd?

**Roedd pawb a holwyd yn cytuno ei fod yn gynnig da.**

**Pwynt Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd rhywfaint o adborth y dylid cynnwys y rhai a fydd yn elwa ar y cyngor wrth ei lunio - hynny yw, rhai o'r plant a rhieni dan sylw.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Byddai cyfarwyddyd o les.'

'Cyhyd â nad yw'n cymryd blwyddyn i'w lunio.'

'Dylai gynnwys rhieni a gofalwyr' 'dylem ni gael grwpiau o rieni i rannu eu profiadau.'

A ddylai plant dros 16 oed mewn addysg (er enghraifft mewn Coleg Addysg Bellach) gael yr un fath o gynllun a chymorth?

**Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn cytuno.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Deellir y gallai hyn helpu gyda'r pontio i'r rhai 16+oed sy'n trosglwyddo i addysg barhaus. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r ystod oedran yn y cynnig ac ni awgrymodd neb y dylai orffen ynghynt. Roedd rhai'n awgrymu y dylent bara'n hirach.

- ✓ Byddai nifer o rieni'n hoffi gweld gwybodaeth gliriach am yr hyn sydd ar gael i'w plant ar ôl 16 oed, ac yn teimlo y dylai fod cyngor ar gael am bontio i wasanaethau i oedolion, ac y dylai'r pontio hwnnw fod yn haws. Codwyd cwestiynau am atebolrwydd o ran Cynlluniau Datblygu Unigol a'r cymorth maent yn galw amdano pan fydd person ifanc yn cyrraedd 18 oed ac yn trosglwyddo i wasanaethau oedolion, pan fydd, yn aml iawn, y sawl sy'n darparu'r cymorth yn newid yn ogystal â'r ffordd y darperir y cymorth.

- ✓ Mae gofyn am ragor o wybodaeth am y fath o gymorth a fyddai'n cael ei gynnwys - er enghraifft a fyddai cludiant i'r lleoliad addysg ac yn ôl yn rhan o'r cynllun.

- ✓ Awgrymodd llawer y dylai cwmpas y Cynlluniau Datblygu Unigol gynnwys y rhai sy'n derbyn hyfforddiant, yn sefyll arholiadau, neu'n mynd trwy brentisiaeth yn ogystal, o bosibl, â'r rhai ar gynlluniau eraill sy'n ymwneud â dysgu a fyddai'n helpu pobl ifanc i ddod o hyd i waith.

- ✓ Mae pryder ynghylch gweithredu Cynlluniau Datblygu Unigol ar y lefel hon - pwy sy'n mynd i reoli'r cynlluniau a sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu'n foddhaol?

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Mae angen i gyngor clir a gwybodaeth fod ar gael ar ôl 16 oed. Pwy sy'n gyfrifol o ran addysg 16 oed +? Oes unigolyn allweddol y gellir mynd ato?

'Ond mae angen i Gynlluniau Datblygu Unigol fod yn fwy hyblyg ar ôl 16 oed - mae gwahaniaeth rhwng chweched dosbarth a cholegau.

'A allai'r ddarpariaeth ar ôl 16 oed gynnwys hyfforddiant? Fel bod cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol tan 25 oed yn cael ei gynnwys o fewn addysg a hyfforddiant 16 - 25.'

'Sut fydd y tîm ar gyfer plant ag anabledd yn bwydo i mewn i wasanaethau i oedolion - er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol (os nad oes anhawster dysgu)?'

'16+ - angen gweithiwr cymdeithasol i gael mynediad at y gwasanaethau presennol, ond ni ddaw gweithiwr cymdeithasol gan nad oes achos i'w agor.'

'Dim llawer o ffydd yn y cynllun oherwydd bod ariannu wedi'i atal o gwrs analwedigaethol ac addysgol.'

A ddylid sicrhau nad yw plant ond yn mynd i ysgolion sy'n gallu sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt?

**Roedd pawb a holwyd yn cytuno â hyn, ond yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y bydden nhw a'r awdurdod lleol yn penderfynu hyn.**

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Dylai plant wybod pa ysgolion sy'n methu â chynnig y cymorth iawn.'

'Gewch chi enwi ysgol o hyd dan y drefn newydd?'

'Gall llawer o ysgolion annibynnol ddiwallu anghenion pobl ifanc yn well na'r Awdurdod Addysg Lleol. Pwy sy'n penderfynu pwy sy'n mynd? Pwy sy'n penderfynu a yw ysgol benodol yn diwallu anghenion plentyn unigol ai peidio?'

NOD 2 Un system o gydweithio fel bod pob gwasanaeth yn gallu camu i mewn yn gynnar â'r cymorth iawn i blant a phobl ifanc y mae angen help arnyn nhw â dysgu.

A ddylai awdurdodau lleol gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a gwrando ar eu barn nhw wrth ystyried pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw?

**Roedd pawb a holwyd yn cytuno â'r cynnig hwn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd teimlad cryf mai'r unig ffordd o gael y cynlluniau'n gywir yw trwy gynnwys y rhai sy'n destun iddyn nhw.
- ✓ Roedd rhieni a gofalwyr yn teimlo mai nhw oedd yn adnabod eu plant orau, a gallant fod yno i siarad drostyn nhw. Roeddent yn cytuno y dylid cynnwys y plant yn uniongyrchol. Roedd rhai o'r farn y dylai hyn ddechrau'n ifanc, neu mor fuan ag y mae'r plentyn yn deall y gallai fod problem, ond roedd eraill o'r farn y dylai'r plentyn fod o leiaf tua diwedd ei amser yn yr ysgol gynradd cyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac adolygiadau ffurfiol.
- ✓ Roedd rhywfaint o drafodaeth am y math o bethau y bydden nhw a'u plant am eu rhannu o ran gwneud penderfyniadau a chyfarfodydd, megis dulliau dysgu ac addysgu a'r effaith o gael eu tynnu allan o wersi gwahanol.
- ✓ Mae problem ar hyn o bryd o ran anghysondeb. Hyd yn oed o fewn ardal yr un awdurdod, mae teuluoedd yn cael eu cynnwys i raddau gwahanol.
- ✓ Y neges oddi wrth y rhieni yn hyn o beth oedd y dylid gwrando o ddifrif ar y rhieni a gofalwyr a'r plant, y dylid parchu eu barn, ac na ddylai'r broses fod yn orgymhleth.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Dylid cynnwys plant a phobl ifanc a theuluoedd o'r cychwyn cyntaf.'

'Dylen nhw gael dweud eu dweud pan fyddan nhw'n gwybod bod angen cymorth arnyn nhw, pan fyddan nhw'n cydnabod nad ydyn nhw'n cadw i fyny.'

'Dydy'r awdurdodau ddim yn adnabod y plant'

'Siarad amdanyn nhw hyd yn oed os nad ydyn nhw'n bresennol - heb gael eu cynnwys'

'A chael mewnbwn o ran y ffordd orau iddyn nhw ddysgu, a

chefnogi hynny gyda dulliau amgen o wneud gwaith ac asesiadau - wedi'i deilwra'n well i gefnogi anghenion unigol.'

'Daw'r disgybl i adolygiad blynyddol, ond ni fydd yna pan wneir y datganiad.'

'Roedd gan bob rhiant unigol brofiad gwahanol.'

'Gwrando O DDIFRIF i bobl ifanc a'u teuluoedd am yr hyn fyddai o gymorth.'

## A ddylai cynlluniau datblygu unigol gael eu hadolygu bob blwyddyn, a'u newid os oes angen?

**Roedd cefnogaeth unfrydol i'r cynnig hwn.**

### Pwyntiau Allweddol a Godwyd:

- ✓ Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni a gofalwyr yn awgrymu y dylai ddigwydd yn fwy aml nag unwaith y flwyddyn, gyda nifer yn awgrymu y dylid eu hadolygu bob tymor.
- ✓ Awgrymwyd y gallai'r amlder ddibynnu ar y plentyn unigol, gan gynnal adolygiad yn fwy aml yn achos plant iau pan fydd mwy o newidiadau datblygiadol. Dylai unrhyw gyfarfod gynnwys pethau cadarnhaol am y plentyn, ac nid dim ond rhestr o fethiannau.
- ✓ Mae pryder ynghylch ariannu a'r capasiti i wneud hyn. A fydd llwyth gwaith y rhai sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn yn caniatáu i hyn ddigwydd, ac a fyddai'r gost yn dod o bethau pwysig eraill?

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'*O leiaf* unwaith y flwyddyn, yn arbennig ar gyfer plant iau'

'Dylai cyfarfodydd ystyried pwyntiau da yn ogystal â phroblemau'

'Cynhelir cyfarfodydd ynghylch plant sy'n derbyn gofal dwywaith neu deirgwaith y flwyddyn - paham cynnal y rhain mor aml ond cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn llai aml (gwahaniaeth mewn cyfrifoldeb)? Dylai pawb gael digon o gymorth.'

'A oes modd gwneud gwaith ychwanegol gyda'r lefel bresennol o staff?'

'Beth fydd y gost - a gymerir yr arian o bethau eraill?'

A ddylai'r bobl wahanol sydd yno i helpu, megis meddygon, athrawon a gweithwyr cymdeithasol, gydweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw?

**Roedd pawb yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd ffocws i'r rhan fwyaf o'r rhieni yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â gweithwyr proffesiynol yn cwrdd ac yn trafod wyneb yn wyneb, gan eu cynnwys nhw a'u plant.
- ✓ Roedd ychydig ohonyn nhw'n trafod y syniad o system gyfrifiadurol ganolog fel ffordd dda, o bosibl, o weithredu hyn. Fodd bynnag, cynigiwyd yr awgrym hwn wrth drafod a ddylai pob plentyn y mae angen cymorth arno dderbyn y cymorth hwnnw, oherwydd y teimlad yw bod rhai'n llithro trwy'r rhwyd oherwydd nad yw gwahanol weithwyr proffesiynol yn cyfathrebu â'i gilydd.
- ✓ Mewn egwyddor, teimlwyd bod hyn yn gynnig cryf, ond mae rhywfaint o amheuaeth ynghylch sut fydd yn gweithio mewn gwirionedd. Er yr oedd y rhieni a gofalwyr yn gallu rhannu rhai enghreifftiau da o waith amlasiantaethol, cafwyd llawer mwy o straeon am yr anawsterau ymarferol o gael y gwahanol bobl o gwmpas y bwrdd, a theimlwyd nad oedd cydweithrediad rhwng gwasanaethau bob amser yn gydweithredol.
- ✓ Awgrymwyd y gall fod cymaint o waith caled cyn bod hyn yn digwydd, a bod teimladau'n gallu fod yn weddol gryf erbyn iddo ddigwydd. Roedd pryder hefyd y gall gymaint o bobl gyda'i gilydd ddanto pobl.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Mae'n mynd dan y radar - 'dyw gweithwyr cymdeithasol ddim yn gwybod beth mae'r meddygon yn ei wneud. Dylai fod ar gyfrifiadur canolog - dylai popeth gysylltu.'

'(Fel y mae ar hyn o bryd) - does neb yn gwybod beth mae pawb arall yn ei wneud.'

'Dylen nhw i gyd fod ym mhob cyfarfod.'

'Fel arall, beth yw'r pwynt?'

'Mae cael tri gweithiwr proffesiynol mewn un cyfarfod fel prynu'r tocyn sy'n ennill y lotri.'

'Gall fod mor anodd eu cael nhw yno fel bod y cyfarfod, pan ddigwydd, yn gallu bod yn gwerylgar.'

'Dylen nhw, ond yn y byd go iawn dydy e ddim yn digwydd.'

'Eu cael nhw i siarad â'i gilydd - pwy sy'n gyrru hynny?'

'Gall gormod o bobl gyda'i gilydd ein danto.'

'Yn aml, nid yw cyrff sy'n cael eu hariannu mewn ffyrdd gwahanol ddim yn cydweithredu - mae angen rhoi mwy o bwysau arnyn nhw i wneud.'

A ddylai pobl sy'n gweithio gyda phlant ifainc iawn wybod beth i'w wneud os byddant yn sylweddoli bod plentyn yn cael anhawster dysgu?

**Cytunodd pawb â hyn.**

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Os yw'r cymorth yn cychwyn pan gaiff y plentyn ei eni, sut fydd hynny'n bwydo i mewn i'r system ysgolion?'

A ddylai bob ysgol fod â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol?

**Roedd pawb a holwyd yn cytuno â'r cynnig hwn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd y rhieni a gofalwyr a holwyd yn awyddus bod rhywun yn arwain y broses o fewn yr ysgol.
- ✓ Roeddent hefyd yn awyddus iawn bod y cymorth yn estyn o'r un unigolyn i bawb sy'n dod i gysylltiad â'u plant. Dylai'r rhain cynnwys staff cymorth, a hyfforddir yn dda, a dylai athrawon y brif ffrwd feddu ar ddigon o ddealltwriaeth, hyblygrwydd, a gallu i ymwneud â phlant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- ✓ Mae teimlad cryf gan lawer bod amrywiaeth eang o ran ansawdd y cymorth a roddir mewn ysgolion, a bod hyn yn arwain at sefyllfa hap a damwain a allai

effeithio'n sylweddol ar gyflawniad a lles y plant. Dylai Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol o safon sicrhau nad yw hyn yn digwydd trwy sicrhau bod gan holl staff yr ysgol yr ethos iawn.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Mae rhieni'n dibynnu ar gael staff cymorth 'da' - fel arall, mae blwyddyn gyfan yn mynd ar goll.'

'Dylai'r cydlynwyr fod wrthi'n cefnogi'r staff yn barod. Dylen nhw fod yn gyfarwydd â'u swydd eu hunain, a dylen nhw gael hyfforddiant priodol. Ar hyn o bryd, mae wir yn dibynnu ar staff unigol.'

'Dylai'r wybodaeth a'r hyfforddiant diweddaraf fod ar gael, ac yn orfodol, i staff sy'n gweithio gydag Anghenion Addysgol Arbennig. Dylid cynnwys hyn yn y Cod Ymarfer.'

'Mae angen hyfforddiant am Anghenion Dysgu Ychwanegol ar staff cynorthwyol, megis ysgrifenyddion a staff amser cinio, i hyrwyddo agwedd gadarnhaol.'

'Dylai holl staff yr ysgol fod yn gyfrifol am y dysgu, yn ogystal ag athro dosbarth sydd â'r prif gyfrifoldeb.'

'Nid yw staff mewn ysgolion yn cael yr hyfforddiant priodol ar hyn o bryd. Nid yw'n plant yn ffitio mewn bocsys. Mae ganddyn nhw i gyd anghenion gwahanol; dylid arfogi athrawon i ddelio â hyn i gyd trwy hyfforddiant.'

A ddylai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal oddi wrth yr awdurdod lleol gael yr un fath o gynllun yn lle'r cynlluniau addysg personol sydd ganddyn nhw ar hyn o bryd?

**Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn cytuno.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Roedd hyn yn gwestiwn anodd i lawer o rieni, gan nad oedd llawer ohonyn nhw wedi cael profiad o'r system plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, roedd nifer yn gyfarwydd â Chynlluniau Addysg Personol. Ar ôl clywed esboniad, roedd eraill yn gallu cyfrannu barn.
- ✓ Awgrymodd rhai fod y newid yn un amlwg - cyhyd â bod y cynllun yn cael ei deilwra i'r unigolyn a bod y cynllun yn gyson tra bod ei angen ar y plentyn.
- ✓ I eraill, mae statws plentyn neu berson ifanc gyda Chynllun Addysg Personol yn broblem - ac roedd pryder y gallant golli'r statws, a'i bod yn haws eu hanghofio.

- ✓ Roedd rhywfaint o amheuaeth a fyddai'r cynllun yn mynd ymhellach na'r papur y'i hysgrifennwyd arno, ac awgrym y dylai'r cynllun aros gyda'r plentyn, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, cyhyd â bod angen. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn gorffen pan ddigwydd hynny.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Synnwyr cyffredin yw hyn - ni wn pam nad oes neb wedi'i wneud o'r blaen.'

'Dylen nhw fod yn gyson ac yn cael eu cydnabod o oedran cynnar.'

'Cadwch nhw (Chynlluniau Addysg Personol) - rhywun i sefyll dros y plant'

'Pan gaiff plentyn ei fabwysiadu, atalir y cymorth - dylai barhau. Dylai'r un cynllun barhau gan na fydd yr anghenion yn diflannu.'

'Label arall'

'Mae datganiadau Chynlluniau Addysg Personol yn goruchafu ar hyn o bryd - fyddan nhw'n colli'r statws hwnnw? Nhw yw'r plant cyntaf i gael cymorth, a fyddan nhw'n colli hynny?'

| NOD 3 | **Cyngor, cymorth a gwybodaeth eglur sy'n deg i bawb os bydd pethau'n mynd o chwith neu os nad ydyn nhw'n hoffi penderfyniad.** |
|---|---|

A ddylai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd allu cael yr holl wybodaeth a chyngor sydd eu hangen arnyn nhw os nad yw pethau'n iawn?

**Cytunodd pawb â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Y brif neges yn fan hyn oedd y dylai'r wybodaeth fod yn glir iawn, yn dryloyw, ac yn hawdd ei deall i bawb. Ar hyn o bryd, teimlir bod y drefn yn codi ofn ar bobl a bod gwybodaeth yn aml yn anodd ei chael, yn arbennig gan y rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol (boed yn blant neu'n rhieni).

- ✓ Dylai hyn helpu i adeiladu ffydd wrth ddelio â'r awdurdodau, rhywbeth sydd ar goll

ar hyn o bryd.

- ✓ Cafwyd trafodaeth anffurfiol hefyd am yr wybodaeth a chyngor cyffredinol a ddylai fod ar gael yn rhwydd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd o'r adeg y nodir bod gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Dylai fod llwybrau clir am yr hyn y mae angen ei wneud. DIAGRAMAU CLIR, CYSON, A GWELEDOL.'

'Mae'r drefn yn codi ofn; pwy fydd yn helpu rhieni unigol i weithio trwy hyn? Mae gan rai rhieni anghenion eu hunain, ac maen nhw'n methu cael y cymorth sydd ei angen ar gyfer eu plant.'

'Sut gaiff rhieni eu hysbysu am eu hawliau o'r diwrnod cyntaf?'

'Rydyn ni am gael mwy o lenyddiaeth mewn Cymraeg CLIR, nad yw'n gwrthddweud ei hun, i esbonio pethau i ni.'

'Mae gormod o reolau heb eu hysgrifennu ar hyn o bryd. Mae'n dibynnu â phwy yr ydych chi'n siarad a ble'r ydych chi'n byw. Rydyn ni am gael person annibynnol diduedd i roi cyngor i rieni.'

## A ddylid datrys problemau ynghylch cymorth dysgu cyn gynted â phosibl, fel nad ydynt yn mynd yn waeth neu'n mynd i dribiwnlys?

**Cytunodd pawb â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Awgrymwyd ei bod yn amlwg yn well i bawb, yn arbennig y plentyn, os oes modd datrys pethau'n gyflym ond yn effeithiol. Awgrymwyd hefyd na fydd hyn yn bosibl bob amser - weithiau, mae pethau'n rhy gymhleth i hyn ddigwydd.
- ✓ Dywedodd llawer o'r rhieni y byddent yn hoffi sicrhau bod y panel yn ddiduedd, ac awgrymwyd sawl ffordd o sicrhau cynhwysiad.
- ✓ Tynnwyd sylw at y ffaith bod gweithdrefn achwyn yn gynnar ar gael yn barod, ac y dylai fod yn hawdd o hyd i fynd at dribiwnlys os oes angen.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Mae tribiwnlys yn cymryd amser - collir addysg werthfawr.'

'Dylai fod yn annibynnol, nid y bobl a gymrodd y penderfyniad gwreiddiol.'

'Dylai fod rhywun ag anghenion arbennig ar y panel.

'Dylid gwahodd rhiant-lywodraethwr.'

'Ond mae angen ei wneud mewn modd effeithiol.'

'A fydd adnoddau ar gael ar gyfer y weithdrefn achwyn yn gynnar?'

A ddylai fod modd i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed fynd i dribiwnlys i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw? A ddylai rhywun penodol fod â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod y broses yn deg?

**Roedd pawb yn cytuno â hyn.**

**Pwyntiau Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Dylai cyngor fod yn annibynnol, dylai'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â thribiwnlysoedd fod yn glir, a dylid hysbysu pob rhiant sydd â phlentyn gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol am hyn.
- ✓ Nid oedd yr un o'r rhieni, gan gynnwys y rhai oedd yn amlwg yn sicrhau eu bod yn wybodus iawn, wedi codi'r effaith bosibl o fynd ymlaen gyda thribiwnlys os nad oes cymorth cyfreithiol ar gael.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Rydyn ni am gael cyngor annibynnol, nid oddi wrth yr Awdurdodau Addysg Lleol.'

'Os nad yw rhieni'n gwybod bod gan berson ifanc Anghenion Addysgol Arbennig, sut allan nhw herio pethau?'

'Pa amserlen a orfodir dan Gynllun Datblygu Unigol? Os oes angen i rieni fynd i dribiwnlys, neu'n anghytuno â rhywbeth, faint o amser fydd cyn datrys y broblem? Beth yw'r amserlen gyfreithiol?'

A ddylai fod modd i blant a phobl ifanc allu cael help oddi wrth rywun y maen nhw’n ymddiried ynddo os ydyn nhw eisiau cwyno am y cymorth maent yn ei dderbyn?

**Cytunodd pawb â hyn.**

**Pwynt Allweddol a Godwyd:**

- ✓ Gellir gwneud hyn trwy eiriolwyr, a ddylai gael eu hyfforddi i ymdrin ag arlliwiau pob plentyn a pherson ifanc, ond yn arbennig y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ni ddylai'r broses eithrio rhieni, a gall y sawl y mae gan y plentyn ffydd ynddo fod yn rhywun heblaw am eiriolydd, er enghraifft aelod o'r teulu.

**Detholiad o ddyfyniadau:**

'Mae angen i eiriolwyr gael eu hyfforddi i weithio gyda phlant sydd ag anghenion arbennig.'

'Ond peidiwch ag eithrio'r rhieni.'

'Does neb yn adnabod ein plant cystal â ni - dim dadl.'

Dylai hyn fod yn ddilys ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Cytunodd pawb.**

Ni wnaed unrhyw sylwadau am hyn.

# ATODIAD 1

## Cwestiynau gan rieni a gofalwyr

**SYLWER: Mae'r cwestiynau mewn print trwm yn gwestiynau a godwyd gan nifer o rieni a gofalwyr.**

'Fydd y plentyn yn credu ei fod yn cael y cymorth perthnasol neu'r cymorth iawn? Beth fydd y ddeddfwriaeth ar Gynlluniau Datblygu Unigol yn awr? - i rai rhieni, datganiadau yw'r unig beth sydd ganddyn nhw.'

**'Fydd modd ei orfodi'n gyfreithiol? Pryd? Gan bwy?'**

'Os oes angen cymorth ar unrhyw blentyn, dylai gael y cymorth hwnnw, ond mae angen deddfwriaeth. Deddfwriaeth o'r cychwyn cyntaf. Pryd daw'n gyfreithiol? Pryd daw'r Cynllun Datblygu Unigol yn ddogfen gyfreithiol?'

'Sut mae hyn yn disodli'r hen drefn a dod yn gynllun sy'n addas i bawb? Pryd mae'n cael grym statudol?'

'Rydyn ni wedi brwydro i gael datganiadau. A oes gyda ni hawl gyfreithiol i ddiddymu datganiadau?'

'Ydyn ni'n gofyn i bobl roi'r gorau i Ddatganiadau? Mae'r risg yn rhy uchel. Gawn ni'r un cymorth?'

'Pa mor gyfreithiol yw'r ddogfen hon? Dyw hynny ddim yn glir. Mae'n amwys.'

'Pwy fydd yn gorfodi'r ddeddfwriaeth newydd hon? Pwy fydd yn archwilio'r cyfan?'

'A gaiff cwmnïau a allai gyflogi pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed ddefnyddio hyn?'

'A allai'r ddarpariaeth ar ôl 16 oed gynnwys hyfforddiant? Fel bod cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol tan 25 oed yn cael ei gynnwys o fewn addysg a hyfforddiant 16 - 25.'

'Sut fydd y tîm ar gyfer plant ag anabledd yn bwydo i mewn i wasanaethau i oedolion - er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol (os nad oes anhawster dysgu)?'

'Pwy sy'n delio â phontio?'

'Ar ôl ysgol neu goleg, beth yw'r cam nesaf?'

'Beth os bydd y person ifanc yn dewis gadael addysg cyn iddo ddod yn 25 oed?
Beth sydd ar gael?'

Sut maen nhw'n bwriadu plismona'r drefn newydd mewn addysg 16+ ac addysg bellach?

Nid yw'n cynnwys cymorth mewn prifysgol.  Pam lai?

Beth sy'n cael ei gynnwys ar ôl 16 oed?  Oes modd cynnwys cludiant yn y Cynllun Datblygu Unigol?  Fel arall, sut mae pobl ifanc yn cyrraedd y coleg?

Bu raid i fy merch adael y coleg am nifer o resymau.  Mae'n 23 oed.  Sdim byd o gwbl ar gael iddi nawr.  Sut fydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn ei helpu?

Am bobl 16 oed a hŷn, beth yw ystyr 'sefydliad addysg'?  Er enghraifft, y ganolfan awtistiaeth newydd?  (Rhywbeth sydd yn y broses o gael ei sefydlu)

'Gewch chi enwi ysgol o hyd dan y drefn newydd?'

'Gall llawer o ysgolion annibynnol ddiwallu anghenion pobl ifanc yn well na'r Awdurdod Addysg Lleol. Pwy sy'n penderfynu pwy sy'n mynd? Pwy sy'n penderfynu a yw ysgol benodol yn diwallu anghenion plentyn unigol ai peidio?'

Mae diffyg arweiniad.  Pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am hyn?  Mae'r Papur Gwyn yn dawel am hyn.

'A oes modd gwneud gwaith ychwanegol gyda'r lefel bresennol o staff?'

'Beth fydd y gost - a gymerir yr arian o bethau eraill?'

'Os yw'r cymorth yn cychwyn pan gaiff y plentyn ei eni, sut fydd hynny'n bwydo i mewn i'r system ysgolion?'

'Eu cael nhw i siarad â'i gilydd - ond pwy sy'n gyrru hynny?'

Oes gofyniad lleiaf o ran hyfforddiant staff sy'n gweithio gydag Anghenion Addysgol Arbennig?  Dylai fod.

'Mae'r drefn yn codi ofn; pwy fydd yn helpu rhieni unigol i weithio trwy hyn? Mae gan rai rhieni anghenion eu hunain, ac maen nhw'n methu cael y cymorth sydd ei angen ar gyfer eu plant.'

'Sut gaiff rhieni eu hysbysu am eu hawliau o'r diwrnod cyntaf?'

'A fydd adnoddau ar gael ar gyfer y weithdrefn achwyn yn gynnar?'

'Os nad yw rhieni'n gwybod bod gan berson ifanc Anghenion Addysgol Arbennig, sut allan nhw herio pethau?'

'Pa amserlen a orfodir dan Gynllun Datblygu Unigol? Os oes angen i rieni fynd i dribiwnlys neu anghytuno â rhywbeth, faint o amser fydd cyn datrys y broblem? Beth yw'r amserlen gyfreithiol?'

**'Pryd bydd hyn ar waith?'**

'Plant sydd â Syndrom Down - pwy fydd yn gosod y meini prawf ar gyfer Cynlluniau

Datblygu Unigol? **Beth yw'r meini prawf ar gyfer derbyn i ysgol arbennig os nad oes system Datganiad bellach?'**

'Sut ydych chi'n blaenoriaethu pwy sydd â hawl i gael cymorth ychwanegol?

'Mae Penaethiaid yn pryderu gan amlaf am gyflawniadau academaidd/ chwaraeon - os yw Llywodraeth Cymru'n gosod safonau, beth fydd yn digwydd?'

'A fydd y cynlluniau'n newid os bydd llywodraeth wahanol?'

**'O ble daw'r arian i gyllido hyn? A fydd hyn yn effeithio ar beth mae pobl yn ei gael ar hyn o bryd?**

**'Sut gaiff hyn ei weithredu o ran staffio a chapasiti?'**

'Beth yw'r goblygiadau cost o ran rhoi hyn ar waith?'

'Fydd hyn yn golygu dwyn arian o bethau neu bobl lle mae ei angen?'

'Beth fydd y gost - a gymerir yr arian o bethau eraill?'

'Ai dyma arfer arall i dorri ar gostau?'

'Ariannu - mae'r Uned Triniaeth Arbennig yn weddol ddiogel - nid yw'r brif ffrwd yn edrych mor ddiogel. A allai hyn esgor ar fethiant?'

'Sut gweithredir y drefn newydd os nad oes digon o adnoddau?'

'A fydd angen ymestyn cyllideb gyfredol yr ysgol yn ehangach, sy'n golygu plant â datganiad? Oes gwarant y bydd y cymorth sydd gyda ni ar hyn o bryd yn parhau ar y lefel honno ar gyfer plant â datganiad?'

'Unwaith y mae'r Cynlluniau Datblygu Unigol ar waith, fydd y plant sydd ag angen llai o gymorth yn ei golli oherwydd nad yw'r gyllideb yn ddigonol?'

Oni chynyddir cyfanswm y gyllideb, fydd hyn ddim yn gweithio. Bydd y gwasanaeth a'r cymorth yn wanedig. Sut fydd ysgolion unigol yn ymdopi â'r newidiadau i'w cyllidebau os ydych yn diddymu datganiadau?

'Mae rhai pethau nag ydyn ni'n eu cael, gan nad ydyn ni'n gymwys. Fydd pawb yn cael mynediad at bethau'n sydyn iawn gan y bydd Cynllun Datblygu Unigol gan bob plentyn os oes angen arno?'

'A gollir adnoddau o siroedd gwahanol pan fydd siroedd yn cyfuno, fydd unigolion ar eu colled wedyn?'

# ATODIAD 2

## Crynodeb o'r holl sylwadau gan blant a phobl ifanc

**SYLWER: Mae'r sylwadau mewn print trwm yn sylwadau a godwyd gan nifer o blant a phobl ifanc.**

### Ydy Anghenion Dysgu Ychwanegol yn well nag Anghenion Addysgol Arbennig?

'Beth am ei alw'n WYCH, neu'n HYNOD WYCH?'

'Anghenion Addysgol Amgen - mae defnyddio acronymau fel cerdded ar flaenau'r traed o gwmpas y broblem'

'Anghenion Addysgol Arbennig - label - twp, araf, hurt'

'Dim ond newid yr acronym'

'Pam bod Llywodraeth Cymru mor hoff o acronymau?'

'Mae angen llawer o addysg i'w ddeall'

'Gwell gen i Anghenion Dysgu Ychwanegol nac Anghenion Addysgol Arbennig, gan nad yw neb arall yn gwybod amdano na beth mae'n golygu'

'Heb glywed llawer am Anghenion Addysgol Arbennig'

'Dim ond newid y geiriau'

'Mae Anghenion Addysgol Arbennig yn ormod o wybodaeth'

'Dim ond gwleidyddiaeth yw e'

'Mae'n fwy meddal'

'Swnio'n well'

'Mwy proffesiynol'

'Mae arbennig yn swnio fel pobl mewn cadair olwyn'

'Mae'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd yn iawn.'

'Nid Anghenion Addysgol Arbennig nac Anghenion Dysgu Ychwanegol - dim ond rhywun y mae angen cymorth arno'

'Nid yw Anghenion Dysgu Ychwanegol yn swnio fel rhywbeth drwg'

'Ddim yn hoffi arbennig'

'Mae arbennig yn nawddoglyd'

**A ddylai fod Cynllun Datblygu Unigol gan bob plentyn sydd ag angen un?**

'Ond peidiwch â thynnu sylw ato'

'Peidiwch â thynnu sylw ato - mae'n denu sylw gwael'

'Mae'n ein helpu, ac yn ein gwneud yn well'

'Fel bod pawb yn gwybod, ac os oes ymwelwyr, gallan nhw eu darllen a deall yn syth'

'On'd oes gennym ni un yn barod?'

'Neis i fod â chynllun'  'Gwych i fod â chynllun'

'Bydd yn ddefnyddiol'

**Ddylai hyn fod yn lle datganiadau a chynlluniau eraill?**

'Ond os oes angen rhagor o gymorth ar rywun, dylai fod yn y cynllun'

**Ddylai fod cyfarwyddyd i oedolion er mwyn ei gael yn iawn?**

'Na, mae'n eu drysu'    'Mae ganddyn nhw eu ffordd eu hun o wneud pethau.'

**A ddylai ysgolion wneud eu gorau glas i sicrhau bod plant yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt?**

'Gall y staff fod yn barod i helpu'

'Mae'r Pennaeth yn barod i helpu weithiau (pan mae'n dymuno)'

'Unrhyw un gyda chyfrifoldeb am addysg'

**A ddylai plant dros 16 oed mewn ysgol neu goleg gael yr un fath o gynllun a chymorth?**

'Pleidleisiwch â'ch traed - niferoedd yw'r dull gorau - ni ddylech fynd ond i goleg a all ddarparu cymorth digonol'

'mae'n tyfu lan, mae'n gwella'

'Dylai bara tan eich bod yn 18 oed yn unig - gan eich bod yn oedolyn wedyn, dylech allu

ei wneud eich hunain'

'gan ei fod yn datrys problem newydd'

'Gallai fod yn wahanol yn y coleg'

'Mae angen i'r cynllun newid wrth i'w fywyd newid'

'Ie, dwi'n credu y dylen nhw'

'Unwaith eich bod yn hŷn na 20, mae'ch rhieni'n dibynnu arnoch i fod yn gyfrifol'

'Dylid eich cynnwys chi heb eich teulu pan fyddwch yn cyrraedd 16/18/20 oed'

'Os ydych yn dal yn y coleg neu'n chwilio am swydd'

'Gwersi i'ch helpu i gael swydd'
'Dylech gael hyfforddiant i fyw neu gymorth gydag arholiadau a fydd yn eich helpu i gael swydd'

'Peirianneg (prentisiaeth) gan eu bod yn eich cadw yn y coleg'

'Help gyda bwyta, sillafu, teithio o amgylch y coleg, darllen, coginio, celf. Gallai fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw'

'Os ydw i yn y set top ond mae pobl yn dweud bod angen cymorth ychwanegol arna i.'

'Os ydych chi eisiau'

'Hapus gyda phethau fel y maen nhw yn awr - dydyn ni ddim yn hoffi newid'

**A ddylid cynnwys / gwrando ar bobl ifanc a'u teuluoedd?**

'Os ydych chi eisiau mynd'

'Gallan nhw fod yn nerfus neu'n ofnus, yn pryderu neu'n teimlo embaras - ddim eisiau clywed pobl yn dweud pethau gwael amdanoch'

'Jyst ddim eisiau mynd - diflas'   'gallai fod yn rhy ddiflas'

'Dylen nhw fod yn sbri - ac yn ddiddorol - a dylai fod losin ar gael!'

'Dylai pobl ifanc gael eu talu am fynd!'

'Chi, yn bendant'

'Sdim angen i bawb wybod - chi, eich rhieni, athrawon'

'Dylai'r teulu wybod, a dylen nhw i gyd gymryd rhan'

'Yn bendant, dylid cynnwys rhieni plant ifanc'

'Unwaith eich bod yn 7/8; 9; 10 oed dylech fod yn rhan o'r peth'

'Mae rhai plant yn rhy ifanc'

'Eich bywyd chi yw e, dydyn nhw ddim yn gwybod - does ganddyn nhw ond yr wybodaeth a roddwyd iddyn nhw'

'Dylem ni gael gwybod ond mae gweithwyr proffesiynol yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud'

'Dylai arbenigwyr wybod beth maen nhw'n ei wneud, ond dylai rhieni fod yn bresennol'

'Mae rhieni'n gwybod yn well na phobl ddieithr'

'Dylech fod yn y cyfarfodydd i gael dweud beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio'

'Dylai'r unigolyn fod yn rhan o'r peth er mwyn trafod ei farn e'

'Mae angen iddyn nhw wybod am beth sydd ganddyn nhw neu beth sy'n ddiangen'

'Mae hawl i fod yno - mae clywed eu barn yn fwy o fewnwelediad'

'Fel bod modd rhoi mwy o wybodaeth gan y person ifanc i'r sawl sy'n llunio'r Cynlluniau Datblygu Unigol / adolygiadau'

'Mae'n well - chi'n cael disgled!'

'Dwi heb fynd'

'Maen nhw'n gofyn cwestiynau - roeddwn i’n teimlo ar goll braidd'

'Dwi'n siarad trwy'r amser beth bynnag, felly roeddwn i'n teimlo'n gyffyrddus'  'Doeddwn i - doeddwn i ddim yn teimlo'n iawn'

'Debyg y bydd dad yn y gwaith'

'Pam fyddai brodyr a chwiorydd yno - dim byd i ymwneud â nhw'  'Cefnogaeth, yn arbennig os nad yw'r tad yn gallu dod'

'Brawd i gael dweud ei ddweud ond heb fod yn rhan o wneud y penderfyniad'

'Ie, dylech gael dweud eich barn'

'Dweud eich dweud'

'Rhannu'ch syniadau am beth ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn'

'Dylech, a'ch rhieni hefyd'

'Mae oedolion yn deall mwy'

'Amdanoch chi mae e'

'Gallan nhw wneud penderfyniadau hurt os nad ydych chi na'ch rhieni'n cael mewnbwn'

'Angen barn y plentyn i sicrhau y bydd yn gweithio'

'Dylen nhw, oherwydd bod barn wahanol ganddyn nhw'

'Fel arfer dim ond mam a dad neu'r gofalwr sy'n cael gwneud, a dydyn nhw ddim yn dweud wrth y plant'

'Weithiau, nid oes gan rieni ddigon o wybodaeth oherwydd nad yw'r plant yn dweud wrthyn nhw'

'Dyna'r peth iawn'

'Byddai rhai o'r bobl sydd yno'n darparu cymorth, rhai'n darparu gwybodaeth a chyngor (ffrindiau ac yn y blaen). Dyma'r rhai gyda'r mewnwelediad gorau. Arbenigwyr.'

'Dywedwch beth sydd gennych i'w ddweud; peidiwch â meddalu'r neges'

**A ddylai cynlluniau datblygu unigol gael eu hadolygu o leiaf unwaith bob blwyddyn?**

'O leiaf'

'Ei newid yn amlach - bob wythnos ar ddydd Mercher neu ddydd Iau'

'Dylai fod yn fwy aml - dwywaith y flwyddyn' 'Dwywaith y flwyddyn' 'Teirgwaith y flwyddyn' '2/3/4/5 gwaith y flwyddyn'

'Teirgwaith y flwyddyn i gyfateb â'r tymor ysgol'
'Pum gwaith y flwyddyn - unwaith bob tymor, gydag adolygiad yn ystod gwyliau'r ysgol i weld os yw anghenion y disgybl wedi newid'

'Adolygiadau llawn, a mân adolygiadau'

'Unwaith y mis'

'Unwaith yr wythnos'

'Pryd bynnag y byddwch yn cyflawni rhywbeth - camau mawr ymlaen, nid rhywbeth bach fel codi o'r gwely'

'Gwirio a yw pethau wedi gwella; a ydyn nhw wedi newid er gwell neu er gwaeth'

'Gwirio a oes angen y cymorth o hyd'

'Yn ystod y gwyliau haf i adolygu'r cymorth gyda phawb - beth sy'n gweithio, beth sydd ddim yn gweithio, beth sydd angen ei newid'

'Bod yn rhan o lunio cynllun ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd - hyd at 25 oed'

'Os nad ydyn nhw'n gwneud eu job, dylen nhw gael rhybudd a dirwy o £9,000'

Dylid edrych ar y Cynlluniau Datblygu Unigol yn fwy aml - o leiaf bob chwe mis i wirio cynnydd ac i wneud newidiadau cyflymach'

'Mae'n dibynnu ar yr unigolyn - mae angen rhagor o gymorth, gwybodaeth, a chynllunio ar rai - mae angen llai o ymyriadau ar eraill'

**A ddylai pobl sy'n gweithio gyda phlant ifainc iawn wybod beth i'w wneud os byddant yn sylweddoli bod plentyn yn cael anhawster dysgu?**

'Ni ddylen nhw fod yn gweithio gyda phobl ifanc os na allan nhw gydnabod yn gynnar bod angen cymorth arnyn nhw'

'Roedden nhw'n credu bod gan ein brawd bach Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond wedyn sylweddolon nhw ei fod yn llawchwith'

'Ymyriad cynnar'

'Dydyn nhw ddim bob amser yn ei chael yn iawn'

**A ddylai gweithwyr proffesiynol gwahanol gydweithio i helpu'r dysgu?**

'Ie, ond mae'n gostus o ran amser, yn arbennig os mae'n digwydd yn aml'

'Mae rhai pobl yn dda mewn rhai swyddi'

'Mae pobl wahanol yn gwneud swyddi gwahanol'

'Cadw rhai pethau'n breifat'

'Pawb yn cydweithio, pawb yn deall'

'Eich bywyd chi yw e'

'Gall fod yn rhy anhrefnus'

'Pobl sy'n eu hadnabod yn dda, sydd fwyaf agos atoch'

'Rydych chi'n mynd i un cyfarfod, ac wedyn cyfarfod arall, ac maen nhw'n dweud yr un peth'

'Mae'n rhy ailadroddol'

'Gall fynd yn ormodol os ydych mewn gormod o gyfarfodydd'

'Ar wahân, i sicrhau trafod popeth'

'Gall pawb gyda'i gilydd fod yn ddryslyd'

'Sortio'r cyfan ar unwaith'

'Sdim rhaid i'r plentyn fynd i gyfarfodydd gwahanol'

'Bydd yn haws gydag un grŵp'

'Ni fydd yn amharu ar wersi cymaint'

'Hyder - dim ond angen esbonio'ch problemau unwaith'
'Mae'n drysu pethau os ydych chi'n dweud pethau llawer gwaith'

'Byddai'n gyflymach ac yn fwy effeithiol'

'Dylen nhw wneud eu gorau glas / defnyddio eu barn broffesiynol'

'Ystyried unigolion ar sail unigol'

'Mae gan weithwyr cymdeithasol lawer o waith i'w wneud beth bynnag'

'Byddan nhw'n dysgu mwy os maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd'

'Barn mwy o bobl, ynghynt'

'Gellir gwrando ar fwy o leisiau'

'Mwy o fewnwelediad trwy gyd-drafod y safbwyntiau gwahanol. Cynllunio gwell pan ddaw'r wybodaeth at ei gilydd'

'Haws i'r plentyn i gael pawb at ei gilydd'

'Dylai fod cyfarfodydd ar wahân'

'Nid oes gan bawb yr un problemau - sdim angen pawb'

'LLE am y cyfarfod - gall fod gormod o bobl'

**Ddylai bob ysgol fod â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol?**

'Cael cydlynydd GWYCH'

'Ie i wasanaethau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol'

'Pan fydd gan rywun gynllun, byddan nhw'n sicrhau ei wireddu'

'Dydych chi ddim yn gwybod a allan nhw ddod i mewn bob diwrnod'

'gallan nhw fod yn wael neu anghofio pethau sydd eu hangen arnyn nhw'

'Ie - ac adran'

'Na i ysgol anghenion arbennig - es i ysgol lle'r oedd y plant dwl yn mynd' 'Nid ym mhob achos - all rhai plant ddim ymdopi ag Ysgol Uwchradd' 'Nid pawb sy'n mynd - efallai fod ganddynt ddyslecsia eithafol' 'Ysgolion geto' 'Gall rhai pobl fod yn eithafol'

**Ddylai plant sy'n derbyn gofal gael yr un cynlluniau yn lle Cynlluniau Addysg Personol?**

'Mae'r plant hyn yn cael gormod o gymorth beth bynnag, pan nad oes ei angen efallai. Mae mwy o angen cymorth ar rai eraill.'

'Dylid gofyn iddynt'

'Mae arnyn nhw anghenion emosiynol ychwanegol sy'n amharu ar ddysgu'

'Mae'n ffordd ychwanegol o ofalu amdanyn nhw'

'Nid oes angen Cynllun Datblygu Unigol ar bawb - neu efallai dylai PAWB gael un - dim gwarthnod'

'Ie - os amherir ar eu dysgu, mae angen Cynllun Datblygu Unigol i'w cadw ar y trywydd iawn. Hefyd fel nad ydyn nhw'n pryderu am bethau eraill sy'n digwydd yn eu bywydau. Sicrhau eu bod yn derbyn gofal go iawn, ac yn gallu parhau i weithio.'

'TCC - mae'r cyfan yn mynd ar bapur ac yn cael ei anfon at y llywodraeth'

'Byddai hynny'n deg, yn haws iddyn nhw, ac yn cadw eu meddyliau'n glir'

'Weithiau, gallai effeithio ar eu prosesau dysgu, ond weithiau nid oes angen dim byd - mae gan un disgybl Ddatganiad, Cynllun Dysgu Unigol, Cynllun Addysg Personol...'

'Cadw'r cyfan yn syml'

'Ddim yn sir pa opsiwn sydd orau neu a ddylai plant sy'n derbyn gofal gael yr un math o gynllun â disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol'

**A ddylai plant a phobl ifanc allu cael yr holl wybodaeth a chyngor sydd eu hangen arnyn nhw os nad yw pethau'n iawn?**

Dim Sylwadau

**Ydy hi'n syniad da i ddatrys problemau mor gyflym â phosibl?**

'Cadw pethau'n araf ac yn rhwydd'

'Ni fydd canlyniad brysiog gystal â chanlyniad lle cymerwyd digon o amser'

**Os aiff y problemau'n fwy, ddylai fod modd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd fynd i dribiwnlys?**

'Efallai na chewch yr holl wybodaeth yn y Tribiwnlys'

'dylai pobl dros 25 oed gael gwneud hyn hefyd er mwyn cael cymorth' (os byddan nhw'n apelio ynghylch rhywbeth a ddigwyddodd pan oedden nhw'n iau)

'Dros 16 oed, dylech chi gael gwneud hyn ar eich pen eich hunain'

**Ddylai fod modd i blant a phobl ifanc allu cael help oddi wrth rywun y maen nhw'n ymddiried ynddo os ydyn nhw eisiau cwyno am y cymorth maent yn ei dderbyn?**

'Rhieni, teidiau a neiniau, ffrindiau, brawd neu chwaer, athro.'

**Ddylai rhywun penodol fod â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod y broses yn deg?**

Dim sylwadau

**Ddylai plant a phobl ifanc ond mynd i ysgolion sy'n gallu diwallu eu hanghenion?**

'Pan fyddan nhw'n ein helpu, mae'n gwneud i ni ddysgu pethau'

'Cymorth gyda darllen, ysgrifennu, Gwobr Dug Caeredin, teithiau - canŵio, gwersylla, bowlio'

**Unrhyw beth arall**

'Paham nad yw bobl ifanc sy'n ddigartref yn derbyn cymorth?'

'Dylai fod rhywfaint o welliant, hyd yn oed os nad yw'n amlwg ar y dechrau - mae angen i hyn ddigwydd cyn gynted ag y bo modd'

'Pryderu y gall pethau newid os bydd Prif Weinidog gwahanol'

'Dylai fod mwy o unedau arbennig megis Canolfan Dereck Roberts mewn ysgolion - mae'n gyflymach os bydd angen cymorth ar rywun, mae mwy o athrawon.'

'Cymaint o jargon yn hyn i gyd - anodd ei ddeall. Mae angen cadw pethau'n syml iawn i

sicrhau gallu cynnwys pobl ifanc o ddifrif.'

'Dylai mwy o bobl allu adnabod pethau fel awtistiaeth neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd fel bod modd eu hadnabod yn gynnar.'

'Mae angen i bobl roi tipyn o broc i'w syniadau i helpu pobl i gael bywyd gwell.'

**Dylai hyn fod yn ddilys ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Dim Sylwadau

# ATODIAD 3
## Crynodeb o'r holl sylwadau gan rieni a gofalwyr

**SYLWER: Mae'r sylwadau mewn print trwm yn sylwadau a godwyd gan nifer o rieni a gofalwyr.**

### Ydy Anghenion Dysgu Ychwanegol yn well nag Anghenion Addysgol Arbennig?

Pam:

'Nid yw'r gair negyddol 'arbennig' ar flaen y term.'

Pryderon:

**'Newid yr enw - beth fydd hyn yn ei newid mewn gwirionedd? Mae'n newid yr enw, nid y swydd'**

'Mae gan y gair 'arbennig' ganfyddiad negyddol ar hyn o bryd, ond yn y dyfodol bydd yr un peth yn wir am Anghenion Dysgu Ychwanegol.'

'Pontio i 25 yn swnio'n well'

'Mae'n gwanedu'r broblem'

'Labelu'

'Doeddwn i erioed am i'm plentyn gael ei labelu, ond mae angen iddo gael ei labelu nawr cyn y gwneir unrhyw beth.'

'Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol yn well nag Anghenion Addysgol Arbennig'

'Does gen i ddim teimlad cryf y bydd newid yr enw yn newid fawr ddim mewn gwirionedd.'

Cyngor

Lleihau gwarthnod Anghenion Dysgu Ychwanegol (yn gyffredinol)

### A ddylai fod Cynllun Datblygu Unigol gan bob plentyn sydd ag angen un?

Pam/pryderon

'Sdim angen hyd yn oed meddwl am hyn.'

'Llawer o bethau'n cael eu colli'

'Pethau'n mynd dan y radar - 'dyw meddygon ddim yn gwybod beth mae'r gweithwyr cymdeithasol yn ei wneud. Dylai fod ar gyfrifiadur canolog.'

'Ie - yn bendant, dylid ffocysu mwy ar y person - mae angen gwybod mwy am y plentyn, gweld y darlun ehangach.'

'Cymerodd ddeng mlynedd i gael llythyr yn ôl o'r gwasanaeth iechyd'

'Mae gen i blentyn maeth gyda datganiad 20-30%'

## Dylai hyn fod yn lle datganiadau a chynlluniau eraill?

**Pam:**

'Mae'r system Datganiadau'n wael - mae rhai'n cael datganiad, dyw eraill ddim, ac nid ydyn nhw bob amser yn cael pethau'n iawn.'

'Gwell i'r plant - llai o warthnod, llai o fwlian.'

'Doedd datganiad diwethaf A'n iws i ddim heblaw am bapur i dynnu lluniau arno. Treulion ni dair awr arno cyn ei anfon bant i wneud newidiadau. Daeth yn ôl yn gwmws yr un peth - chafodd awtistiaeth mo'i ychwanegu.'

**Cyngor/pryderon**

'Os mae'n cynnwys popeth'

'Os bydd yn haws na chael datganiad.'

'Fydd y plentyn yn credu ei fod yn cael y cymorth perthnasol neu’r cymorth iawn? Beth fydd y ddeddfwriaeth ar Gynlluniau Datblygu Unigol yn awr? - i rai rhieni, datganiadau yw'r unig beth sydd ganddyn nhw.'

'Angen iddo gael yr un grym yn ôl y ddeddfwriaeth'

'Os oes angen cymorth ar unrhyw blentyn, dylai gael y cymorth hwnnw, ond mae angen deddfwriaeth. Deddfwriaeth o'r cychwyn cyntaf. Pryd daw'n gyfreithiol? Pryd daw'r Cynllun Datblygu Unigol yn ddogfen gyfreithiol?'

'Sut mae hyn yn disodli'r hen drefn a dod yn gynllun sy'n addas i bawb? Pryd mae'n cael grym statudol?'

'Rydym wedi brwydro i gael datganiadau. A oes gyda ni hawl gyfreithiol i ddiddymu datganiadau?'

'Ydyn ni'n gofyn i bobl roi'r gorau i Ddatganiadau? Mae'r risg yn rhy uchel. Gawn ni'r un cymorth?'

'Pa mor gyfreithiol yw'r ddogfen hon? Dyw hynny ddim yn glir. Mae'n amwys.'

'Os ydyn nhw eisiau i ni ymddiried ynddyn nhw i gyflawni'r cyfan, rhaid i'r Cynllun Datblygu Unigol fod yn ddogfen gyfreithiol o'r cychwyn cyntaf.'

'Yn pryderu am ddeilliannau sydd â grym statudol.'

'Pwy fydd yn gorfodi'r ddeddfwriaeth newydd hon? Pwy fydd yn archwilio'r cyfan?'

'Heb ddatganiad, does dim byd yn cael ei wneud'

'Ond os nad yw mor gyfreithiol, efallai bydd mwy o hyblygrwydd'

'Amheuaeth a yw datganiadau'n cael eu dilyn yn fanwl'

'Ni ddylid defnyddio'r gair DYLAI - dylid defnyddio BYDD'

'Caiff y geiriau a ddefnyddir effaith ddifrifol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth'

'Mae'n rhaid i'r iaith a ddefnyddir fod yn fanwl gywir - mae'r drefn Datganiadau yn wych o'r golwg cyntaf, ond mae'n methu pan ddaw at y manylion.'

**Ddylai fod cyfarwyddyd i oedolion er mwyn ei gael yn iawn?**

'Byddai cyfarwyddyd o les.'

'Cyhyd â nad yw'n cymryd blwyddyn i'w lunio.'

'Dylai gynnwys rhieni a gofalwyr - dylem ni gael grwpiau o rieni i rannu eu profiadau.'

'Rydyn ni am gael mwy o lenyddiaeth mewn Cymraeg CLIR, nad yw'n gwrthddweud ei hun, i esbonio pethau i ni.'

**A ddylai ysgolion wneud eu gorau glas i sicrhau bod plant yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw?**

'Ond dydyn nhw ddim'

**A ddylai plant dros 16 oed mewn ysgol neu goleg gael yr un fath o gynllun a chymorth?**

**Mae'r rhan fwyaf yn cytuno** y dylai Cynlluniau Datblygu Unigol gynnwys pobl hyd at 25 oed.

Gwybodaeth

'Mae angen rhagor o wybodaeth i'r rhai dros 18 oed'

'Mae angen i gyngor clir a gwybodaeth fod ar gael ar ôl 16 oed. Pwy sy'n gyfrifol o ran addysg 16 oed +? Oes unigolyn allweddol y gellir mynd ato?

Hyd

'Dylai fod yn ddysgu gydol oes' 'Dylai fod am y cyfan o'u bywydau'

'Gall fod yn ddilyniant i'r cynlluniau datblygu'

'Dydy addysg ddim yn gorffen pan fyddwch yn 16 oed'

'Rydych i fod mewn addysg hyd at 18 oed os nad ydych yn gweithio'

'Ond mae angen i Gynlluniau Datblygu Unigol fod yn fwy hyblyg ar ôl 16 oed - mae gwahaniaeth rhwng chweched dosbarth a choleg.

**Hyfforddiant a swyddi**

'Ie, ac am y Ganolfan Byd Gwaith hefyd'

'Dwi'n credu eich bod yn cael mwy o gymorth ar ôl yr ysgol trwy waith a'r coleg nag ydych chi'n ei gael trwy'r ysgol.

'A gaiff cwmnïau a allai gyflogi pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed ddefnyddio hyn?'

'A allai'r ddarpariaeth ar ôl 16 oed gynnwys hyfforddiant? Fel bod cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol tan 25 oed yn cael ei gynnwys o fewn addysg a hyfforddiant 16 - 25.'

**Pontio**

'16+ - angen gweithiwr cymdeithasol i gael mynediad at y gwasanaethau presennol, ond ni ddaw gweithiwr cymdeithasol gan nad oes achos i'w agor.'

'Sut fydd y tîm ar gyfer plant ag anabledd yn bwydo i mewn i wasanaethau i oedolion - er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol (os nad oes anhawster dysgu)?'

'Pwy sy'n delio â phontio?'

'Ar ôl ysgol neu goleg, beth yw'r cam nesaf?'

'Beth os bydd y person ifanc yn dewis gadael addysg cyn iddo ddod yn 25 oed? Beth sydd ar gael?'

**Pryderon:**

'Dim llawer o ffydd yn y cynllun oherwydd bod ariannu wedi'i atal o gwrs analwedigaethol ac addysgol.'

'Sdim digon o ddewis i bobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol ar ôl 16 oed'

**Cwestiynau ychwanegol am weithredu'r drefn newydd**

Sut maen nhw'n bwriadu plismona'r drefn newydd mewn addysg 16+ ac addysg bellach?

Nid yw'n cynnwys cymorth mewn prifysgol. Pam lai?

Beth sy'n cael ei gynnwys ar ôl 16 oed? Oes modd cynnwys cludiant yn y Cynllun Datblygu Unigol? Fel arall, sut mae pobl ifanc yn cyrraedd y coleg?

Bu raid i fy merch adael y coleg am nifer o resymau. Mae'n 23 oed. Sdim byd o gwbl ar gael iddi yn awr. Sut fydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn ei helpu?

Am bobl 16 oed a hŷn, beth yw ystyr 'sefydliad addysg'? Ydy hyn yn cynnwys DIR? Canolfan Chwith Awtistiaeth? (Rhywbeth sydd yn y broses o gael ei sefydlu)

## Ni ddylai plant a phobl ifanc ond mynd i ysgolion a all gynnig y math iawn o gymorth

### Gwneud dewis

'Dylai plant wybod pa ysgolion sy'n methu â chynnig y cymorth iawn.'

'Gewch chi enwi ysgol o hyd dan y drefn newydd?'

'Gall llawer o ysgolion annibynnol ddiwallu anghenion pobl ifanc yn well na'r Awdurdod Addysg Lleol. Pwy sy'n penderfynu pwy sy'n mynd? Pwy sy'n penderfynu a yw ysgol benodol yn diwallu anghenion plentyn unigol ai peidio?'

## A ddylid cynnwys / gwrando ar bobl ifanc a'u teuluoedd?

### Pryd

'Dylid cynnwys plant a phobl ifanc a theuluoedd o'r cychwyn cyntaf.'

'Dylen nhw gael dweud eu dweud pan fyddan nhw'n gwybod bod angen cymorth arnyn nhw, pan fyddan nhw'n cydnabod nad ydyn nhw'n cadw i fyny.'

'Roedd rhai'n rhy ifanc i fod yn yr ysgol pan nodwyd y problemau am y tro cyntaf'

### Pam:

'Nid yw'r awdurdodau'n adnabod y plant'

'Rhaid i rywun fod yno i siarad dros y plant'

'Siarad amdanyn nhw hyd yn oed os nad ydyn nhw'n bresennol - heb gael eu cynnwys'

'Codwyd problemau o ran y gwersi yr oedd plant yn eu colli - cwympo'n ôl mewn rhai pwysig neu golli'r rhai maen nhw'n eu mwynhau.'

'A chael mewnbwn o ran y ffordd orau iddyn nhw ddysgu, a chefnogi hynny gyda dulliau amgen o wneud gwaith ac asesiadau - wedi'i deilwra'n well i gefnogi anghenion unigol.'

'Daw'r disgybl i adolygiad blynyddol, ond ni fydd yna pan wneir y datganiad.'

'Roedd gan bob rhiant unigol brofiad gwahanol.'

'Mae angen i bob sir ddefnyddio'r un drefn'

### Pryd

'Cyn gynted ag y maen nhw'n ymwybodol'

### Cyngor/pryderon

'Dylid rhoi gwybodaeth i rieni i sicrhau bod y person ifanc ar gynllun, a sut i gychwyn arni.'

'Gwrando O DDIFRIF i bobl ifanc a'u teuluoedd am yr hyn fyddai o gymorth'

'Maen nhw'n gwrando mwy ar rai nag ar eraill - mae'n anghyson.'

'Cytuno - ond mewn gwirionedd, dydyn nhw ddim.'

'Mae angen iddo fod yn symlach.'

### Gweithredu

Mae diffyg arweiniad. Pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am hyn? Mae'r Papur Gwyn yn dawel am hyn.

## A ddylai cynlluniau datblygu unigol gael eu hadolygu o leiaf unwaith bob blwyddyn?

### Pa mor aml

'**O leiaf** unwaith y flwyddyn, yn arbennig ar gyfer plant iau'

'Fel bo angen - rhai mwy aml, rhai llai aml'

'Bob 6 mis'

'Bob tymor pan fydd y cynlluniau gwers yn newid'

'Dylai cyfarfodydd ystyried pwyntiau da yn ogystal â phroblemau'

**'Dydy unwaith y flwyddyn ddim yn ddigon aml i adolygu Cynllun Datblygu Unigol - gwell gen i adolygiad bob tymor'**

'Cynhelir cyfarfodydd ynghylch plant sy'n derbyn gofal dwywaith neu deirgwaith y flwyddyn - paham cynnal y rhain mor aml ond cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn llai aml (gwahaniaeth mewn cyfrifoldeb)? Dylai pawb gael digon o gymorth.'

## Cwestiynau/Pryderon

'A oes modd gwneud gwaith ychwanegol gyda'r lefel bresennol o staff?'

'Beth fydd y gost - a gymerir yr arian o bethau eraill?'

**A ddylai pobl sy'n gweithio gyda phlant ifainc iawn wybod beth i'w wneud os byddant yn sylweddoli bod plentyn yn cael anhawster dysgu?**

'Os yw'r cymorth yn cychwyn pan gaiff y plentyn ei eni, sut fydd hynny'n bwydo i mewn i'r system ysgolion?'

**A ddylai gweithwyr proffesiynol gwahanol gydweithio i helpu'r dysgu?**

## Pam:

'(Fel y mae ar hyn o bryd) - does neb yn gwybod beth mae pawb arall yn ei wneud.'

'Dylen nhw i gyd fod ym mhob cyfarfod.'

'Sdim angen hyd yn oed meddwl am hyn.'

'Fel arall, beth yw'r pwynt?'

## Cwestiynau/Pryderon

**'Dydy gweithwyr proffesiynol ddim yn dod ar hyn o bryd.'**

'Mae cael tri gweithiwr proffesiynol mewn un cyfarfod fel prynu'r tocyn sy'n ennill y lotri.' 'Gall fod mor anodd eu cael nhw yno fel bod y cyfarfod, pan mae'n digwydd, yn gallu bod yn gwerylgar.'

'Dylen nhw, ond yn y byd go iawn dydy e ddim yn digwydd.'

'Eu cael nhw i siarad â'i gilydd - ond pwy sy'n gyrru hynny?'

'Gall gormod o bobl gyda'i gilydd ein danto.'

'Gall adolygiadau sy'n canolbwyntio ar y disgybl ganolbwyntio'n ormodol ar y disgybl'

'Daw adroddiad meddyg ar ôl y cyfarfod - dyw hynny ddim yn helpu.'

'Yn aml, nid yw cyrff sy'n cael eu hariannu mewn ffyrdd gwahanol ddim yn cydweithredu - mae angen rhoi mwy o bwysau arnyn nhw i wneud.'

## Cyngor

'Mae wedi gwella'n ddiweddar'

'Rhieni ymwthiol a checru'n helpu!'

'Enghreifftiau o ddulliau amlasiantaethol amgen - mae'r panel datrys adnoddau lleol ym Mhowys yn helpu asiantaethau eraill. Tîm o amgylch y teulu (gwasanaethau cymdeithasol)'

'Adolygu'r disgyblion - nid ar lefel gynradd'

'Er efallai y bydden nhw'n elwa ohonyn nhw o ran paratoi disgyblion at adolygiadau yn y dyfodol.'

'Hoffwn i'r seicolegydd addysg fod yno.'

'Gweithiwr allweddol (gan ddibynnu ar yr anghenion) Tîm Plant Enable - grŵp amlasiantaethol sy'n darparu gwasanaethau iechyd NEU gymdeithasol NEU addysg.'

## Ddylai bob ysgol fod â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol?

### Cyngor

Dylai fod unigolyn penodol i arwain.
Mae rhieni'n dibynnu ar gael staff cymorth 'da' - fel arall, mae blwyddyn gyfan yn mynd ar goll.

Oes gofyniad lleiaf o ran hyfforddiant staff sy'n gweithio gydag Anghenion Addysgol Arbennig? Dylai fod.

Dylai'r cydlynwyr fod wrthi'n cefnogi'r staff yn barod. Dylen nhw fod yn gyfarwydd â'u swydd eu hunain, a dylen nhw gael hyfforddiant priodol. Ar hyn o bryd, mae wir yn dibynnu ar staff unigol.

Dylai'r wybodaeth a'r hyfforddiant diweddaraf fod ar gael, ac yn orfodol, i staff sy'n gweithio gydag Anghenion Addysgol Arbennig. Dylid cynnwys hyn yn y Cod Ymarfer.

Mae angen hyfforddiant am Anghenion Dysgu Ychwanegol ar staff ychwanegol, er enghraifft ysgrifenyddion a staff amser cinio, i hyrwyddo agwedd gadarnhaol. **Dylai holl staff yr ysgol fod yn gyfrifol** am y dysgu, yn ogystal ag athro dosbarth sydd â'r prif gyfrifoldeb.

Diffyg diddordeb athrawon (y rhai nad ydynt yn arbenigwyr) o ran ymdopi, neu weithio, â phlant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol; er enghraifft mae athro'r Rhaglen Trochi Gweledol yn helpu, ond does neb yn goruchwylio popeth.

Nid yw staff mewn ysgolion yn cael yr hyfforddiant priodol ar hyn o bryd. Nid yw'n plant yn ffitio mewn bocsys. Mae ganddyn nhw i gyd anghenion gwahanol; dylid arfogi athrawon i ddelio â hyn i gyd trwy hyfforddiant.'

## Ddylai plant sy'n derbyn gofal gael yr un cynlluniau yn lle Cynlluniau Addysg

**Personol?**

'Synnwyr cyffredin yw hyn - ni wn pam nad oes neb wedi'i wneud o'r blaen.'

'Dylen nhw wedi gofyn i rieni'n gyntaf; byddai hynny wedi bod yn well.'

### Cyngor

'Ei deilwra i'r unigolyn.'

'Dylen nhw fod yn gyson ac yn cael eu hadnabod o oedran cynnar.'

'Cadwch nhw - rhywun i sefyll dros y plant'

'Pan gaiff plentyn ei fabwysiadu, atalir y cymorth - dylai barhau. Dylai'r un cynllun barhau gan na fydd yr anghenion yn diflannu.'

### Yn erbyn

'Label arall'

'A minnau'n rhiant maeth, dwi'n credu bod hyn yn fethiant llwyr. Mae'n wych ar bapur, ond go brin mae neb yn gweithredu arno.'

### Cwestiynau/Pryderon

'Mae datganiadau Cynlluniau Addysg Personol yn goruchafu ar hyn o bryd - fyddan nhw'n colli'r statws hwnnw? Nhw yw'r plant cyntaf i gael cymorth, a fyddan nhw'n colli hynny?'

'Beth yw'r gwahaniaeth rhwng hynny a'r hyn sydd ganddynt ar hyn o bryd?

**A ddylai plant a phobl ifanc allu cael yr holl wybodaeth a chyngor sydd eu hangen arnyn nhw os nad yw pethau'n iawn?**

### Cyngor/cwestiynau

'Gwnewch yn siŵr ei bod yn SYML fel bod pawb yn deall.'

'Dylai fod llwybrau clir am yr hyn y mae angen ei wneud. DIAGRAMAU CLIR, CYSON, A GWELEDOL.'

'Mae'r drefn yn codi ofn; pwy fydd yn helpu rhieni unigol i weithio trwy hyn? Mae gan rai rhieni anghenion eu hunain, ac maen nhw'n methu cael y cymorth sydd ei angen ar gyfer eu plant.'

'Sut gaiff rhieni eu hysbysu am eu hawliau o'r diwrnod cyntaf?'

### Pryderon:

'Mae gormod o reolau heb eu hysgrifennu ar hyn o bryd. Mae'n dibynnu â phwy yr ydych

chi'n siarad a ble'r ydych chi'n byw. Rydyn ni am gael person annibynnol diduedd i roi cyngor i rieni.'

'Byddai'r ffydd yno os nad oedd yr Awdurdod Addysg Lleol, y cyngor, yr ysgol ac yn y blaen yn ceisio ein twyllo trwy'r amser trwy balu celwyddau a cheisio osgoi gwneud dim.'

## Ydy hi'n syniad da i ddatrys problemau mor gyflym â phosibl?

### Pam:

'Gwell i'r plant gael y peth drosodd'

'Os yw'r gwaith yn cael ei wneud yn iawn, nid oes problem i'w datrys.'

'Mae tribiwnlys yn cymryd amser - collir addysg werthfawr.'

'Mae proses cyn-dribiwnlys ar gael yn barod.'

### Cyngor

'Dylai fod yn annibynnol, nid y bobl a gymrodd y penderfyniad gwreiddiol.'

'Dylai fod rhywun ag anghenion arbennig ar y panel.'

'Dylid gwahodd rhiant-lywodraethwr.'

'Nid dim ond y pwysigion'

'Ond mae angen ei wneud mewn modd effeithiol.'

### Cwestiynau/Pryderon

'A fydd adnoddau ar gael ar gyfer y weithdrefn achwyn yn gynnar?'

'Weithiau, dydy pethau ddim yn syml a rhwydd, felly mae angen cymhlethdod er mwyn cael gofal ar y lefel iawn.'

'Ni ddylai fod yn anos mynd at dribiwnlys os oes angen.'

## Os aiff y problemau'n fwy, ddylai fod modd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd fynd i dribiwnlys?

### Cyngor

'Rydyn ni am gael cyngor annibynnol, nid oddi wrth yr Awdurdodau Addysg Lleol.'

'Rydyn ni am i'r ysgolion gael eu harchwilio.'

'Mae angen i hyn fod yn y ddeddfwriaeth.'

Cwestiynau/Pryderon

'Os nad yw rhieni'n gwybod bod gan berson ifanc Anghenion Addysgol Arbennig, sut allan nhw herio pethau?'

'Pa amserlen a orfodir dan Gynllun Datblygu Unigol? Os oes angen i rieni fynd i dribiwnlys neu anghytuno â rhywbeth, faint o amser fydd cyn datrys y broblem? Beth yw'r amserlen gyfreithiol?'

**Ddylai fod modd i blant a phobl ifanc allu cael help oddi wrth rywun y maen nhw'n ymddiried ynddo os ydyn nhw eisiau cwyno am y cymorth maent yn ei dderbyn?**

Pam:

'Mae angen eiriolwyr ar rai plant'

'Does neb yn adnabod ein plant cystal â ni - dim dadl.'

Cyngor

**'Mae angen i eiriolwyr gael eu hyfforddi i weithio gyda phlant sydd ag anghenion arbennig.'**

'Weithiau, does dim clem gan eiriolwyr a dydyn nhw ddim yn deall bod angen mwy o amser ar rai plant, ac weithiau doedden nhw erioed wedi deall.'

'Ond peidiwch ag eithrio'r rhieni.'

'Mae rhai plant yn cytuno â phopeth y byddwch chi'n ei ddweud - rhaid ystyried cyd-destun i ddeall pam dywedodd y plentyn hynny. Rydyn ni am i'n plant gael eu hadnabod.'

'Maen nhw'n cael eu dileu pan fyddan nhw'n 18 oed.'

**Ddylai rhywun penodol fod â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod y broses yn deg?**

Dim Sylwadau

**Ddylai hyn fod yn ddilys ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Dim sylwadau

**Pryderon a chwestiynau mawr**

## Atebolrwydd

'Pryd bydd hyn ar waith?'

'Pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn gweithio'n dda? PWY sy'n gyfrifol am y Cynllun Datblygu Unigol? Ei arwain neu ei yrru - pwy sy'n atebol?'

'Fydd mwy o gyfrifoldeb ar ysgolion sydd heb y sgiliau / adnoddau / arian i ddarparu cymorth addas?'

'Tybir bod y cynllun yn waith wedi'i gwblhau. Blwch wedi'i dicio. Tybir mai e yw'r prif ffocws. Anaml iawn y mae'r hyn sy'n digwydd wedyn yn cael ei wirio, neu'n destun i ddilyniant. Yn aml, anwybyddir Cynllun Addysg Unigol ac asesiadau dyslecsig.'

'Plant sydd â Syndrom Down - pwy fydd yn gosod y meini prawf ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol? Beth yw'r meini prawf ar gyfer derbyn i ysgol arbennig os nad oes system Datganiad bellach?'

'Bellach, mater i'r ysgolion unigol yw faint o gymorth a roddir ac a yw ysgolion yn rhagweithiol.'

'Sut ydych chi'n blaenoriaethu pwy sydd â hawl i gael cymorth ychwanegol?

'Mae Penaethiaid yn pryderu gan amlaf am gyflawniadau academaidd/ chwaraeon - os yw Llywodraeth Cymru'n gosod safonau, beth fydd yn digwydd?'

'A fydd y cynlluniau'n newid os bydd llywodraeth wahanol?'

## Deddfwriaeth

'Fydd modd ei orfodi'n gyfreithiol? Pryd? Gan bwy?'

*** Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau am hyn yn dilyn y cwestiwn am Gynlluniau Datblygu Unigol yn disodli pob cynllun arall. ***

## Cost a chapasiti

'O ble daw'r arian i gyllido hyn? A fydd hyn yn effeithio ar beth mae pobl yn ei gael ar hyn o bryd?'

'Sut gaiff hyn ei weithredu o ran staffio a chapasiti?'

'Beth yw'r goblygiadau cost o ran rhoi hyn ar waith?'

'Fydd hyn yn golygu dwyn arian o bethau neu bobl lle mae ei angen?'

'Beth fydd y gost - a gymerir yr arian o bethau eraill?'

'Ai dyma arfer arall i dorri ar gostau?'

'Pryder ynghylch ariannu - toriadau'n codi pryder.'

'Ariannu - mae'r Uned Triniaeth Arbennig yn weddol ddiogel - nid yw'r brif ffrwd yn edrych mor ddiogel. A allai hyn esgor ar fethiant?'

'Sut gweithredir y drefn newydd os nad oes digon o adnoddau?'

'A fydd angen ymestyn cyllideb gyfredol yr ysgol yn ehangach, sy'n golygu plant â datganiad? Oes gwarant y bydd y cymorth sydd gyda ni ar hyn o bryd yn parhau ar y lefel honno ar gyfer plant â datganiad?'

'Mae angen ystyried mwy na'r geiniog olaf wrth drafod addysg plentyn.'

'Unwaith y mae'r Cynlluniau Datblygu Unigol ar waith, fydd y plant sydd ag angen llai o gymorth yn ei golli oherwydd nad yw'r gyllideb yn ddigonol?'

Oni chynyddir cyfanswm y gyllideb, fydd hyn ddim yn gweithio. Bydd y gwasanaeth a'r cymorth yn wanedig. Sut fydd ysgolion unigol yn ymdopi â'r newidiadau i'w cyllidebau os ydych yn diddymu datganiadau?

'Mae rhai pethau nag ydyn ni'n eu cael, gan nad ydyn ni'n gymwys. Fydd pawb yn cael mynediad at bethau'n sydyn iawn gan y bydd Cynllun Datblygu Unigol gan bob plentyn os oes angen arno? Rydyn ni eisiau hyn; rydyn ni am gael gweithiwr allweddol enwedig. Rydyn ni am gael cyngor diduedd.'

'A gollir adnoddau o siroedd gwahanol pan fydd siroedd yn cyfuno, fydd unigolion ar eu colled wedyn?'

## Capasiti

**Pryderon:**

'Gall y capasiti, gyda'r lefelau staffio presennol, fod yn broblem fawr.'

'Bydd y llwyth gwaith i ysgolion yn enfawr.'

**Cyngor**

'Dylai'r holl arian fod mewn un blwch mawr fel bod pawb yn gallu cael yr hyn sydd ei angen arnyn nhw.'

'Os bydd datganiad gan ysgol ar hyn o bryd, ydy'r ysgol ar ei hennill yn ariannol? Rydyn ni'n credu ei bod, ond a gaiff arian dan y drefn amgen hon?'

**Addysg nad yw mewn ysgol**

'Beth fydd y sgôr am blant sy'n cael eu haddysg yn y cartref?'

## Cyffredinol / Unrhyw beth arall?

**Cyfleusterau**

'Rydyn ni am gael rhagor o gyfleusterau - doedd integreiddio ddim yn gweithio i'n plant ni oherwydd bwlian.'

**Gwarthnod**

Lleihau gwarthnod Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Sut mae pethau ar hyn o bryd o gymharu â'r newidiadau**

'Mae darpariaeth dda ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sir hon.'

**'Rydyn ni'n pryderu am golli'r hyn sydd gyda ni ar hyn o bryd mewn cyfnewid am rywbeth a fydd, o bosibl, yn waeth neu heb fod yn well.'**

'Mae'r cod ymarfer presennol yn cynnwys yr holl bethau hyn. Nid dim ond y dechnoleg sy'n wahanol. Mae profiad addysgol eich plentyn wir yn dibynnu ar yr ysgol unigol.'

'Dydyn ni ddim yn hoffi'r newid. Dydy'r bobl ifanc ddim yn ymateb yn dda i newid.'

**Gwerthuso plant, nid llwyddiant academaidd**

'Mae pob plentyn yn unigolyn - os oes gyda nhw ddigon o gymorth neu'r cymorth iawn byddan nhw'n ffynnu.'

'Anodd yw gwybod pa gymorth y mae gyda chi hawl iddo - mae angen iddo fod yn fwy clir.'

'Mae'n fwy cyfleus i wthio pobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol i ysgolion arbennig. Nid cyflawniadau academaidd yw'r unig ganlyniad sydd o werth o'r ysgol. Buddsoddwch yn ein pobl ifanc yn awr.'

'Mae gormod o ffocws ar lwyddiant academaidd a dim digon o bwyslais ar lwyddiant emosiynol a chymdeithasol.'

'Does gen i ddim ffydd yn y system addysg - mae'n rhoi pobl ifanc mewn sefyllfa lle byddan nhw'n methu.'

'Ymddengys fod ysgolion yn fodlon ar fyfyrwyr na fydd yn llwyddo, nid oes dyhead i lwyddo mewn achosion anodd.'

**Gorfod bod yn rhiant ymwthiol**

'Nid yw'r ysgol yn ymateb i anghenion unigol, ac mae rhieni'n teimlo'n rhwystredig. **Os nad ydych yn rhiant ymwthiol, bydd eich plentyn ar ei golled.'**

'Yn aml, caiff rhieni rhagweithiol eu labelu'n rhieni afresymol neu anodd; mae rhai ohonon ni'n gwybod ein hawliau, ac yn gorfod brwydro drostyn nhw. Dylai fod yn

awtomatig.'

'Os yw rhieni'n ymwthiol, maen nhw'n cael y cymorth; fel arall, mae eu plant ar eu colled.'

'Byddan nhw'n brwydro i sortio pethau dros eu plant.  Weithiau, maen nhw'n cael eu gweld yn rhieni anodd.'

**Arall**

'Sdim darpariaeth y tu allan i oriau arferol ar gyfer pobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig.'

'Pryder y bydd y pwyslais ar farchnata a phecynnu yn hytrach na gwasanaethau. Ydych chi'n edrych yn ddigon caled ar arfer da?'

'Yr anghenion gwahanol rhwng plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rhai gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n dod o gefndir cymdeithasol difreintiedig.'

Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r adroddiad hwn heb ganiatâd.

# Manylion Cyswllt

**01792 466231**
info@dynamix.coop
www.dynamix.coop
Uned 4d Heol y Cwm, Hafod, Abertawe, SA1 2AY

Prif weithwyr: Jo Stephens, Phill Burton, John Daphne Thomas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**029 2082 6098**
Prif gyswllt: Martha Howells
Cangen Anghenion Dysgu Ychwanegol, Isadran Cefnogi Dysgwyr
Adran Addysg a Sgiliau, Grŵp Ysgolion a Phobl Ifanc
martha.dagamahowells@wales.gsi.gov.uk